



DIWRNOD FFRENGIG



LLEISIAU LLANBABS



WAUNFAWR

Penblwydd Hapus

400

Mehefin 2012

Pris: 50c

ECO'r Wyddfa

Marathon o farathon ym Morocco



Fel yr adroddwyd y mis diwethaf, mae Ashley Wager o Frynrefail newydd ddychwelyd ar ôl cwblhau y Marathon des Sables ym Morocco. Beth sydd mor arbennig am hynny meddech? Onid oes degau o drigolion y fro wedi rhedeg marathon? Wel oes, ond nid un bob dydd am saith niwrnod, a hynny yn niffeithwch y Sahara mewn tymheredd o 40 gradd. A dyna wnaeth Ashley. Cwblhau uchelgais oes a chodi arian i Hosbis Dewi Sant yr un pryd.

Sefydlwyd y Marathon des Sables yn 1985 a gall unrhyw un roi cynnig arni. Eleni, roedd y cwrs yn 152 o filltiroedd, i'w

gwblhau mewn saith niwrnod. Ar y trydydd diwrnod roedd angen cwblhau 50 o filltiroedd, ac yna cael diwrnod o orffwys.

Ond roedd y gwres erbyn hyn wedi taro uchafbwynt o 52 gradd, a'r mwyafrif o'r cystadleuwyr yn parhau i geisio cwblhau'r milltiroedd yn ystod oriau mân y bore. Yn wir, roedd yn ganol pnawn ar y diwrnod o 'orffwys' ar y rhan fwyaf yn gorffen – ac yr oedd marathon arall yn eu hwynebu y diwrnod canlynol, ac wedyn, ac...

Nid marathon ar y gwastad mohoni chwaith. Ar wahan i

greigle noeth a gerwin, roedd twyni tywod anferth a hyd yn oed fynyddoedd i'w dringo yn ystod yr antur. Ac ar ddiwedd y bedwaredd noson daeth storm o dywod, mellt a tharannau a chenllysg fel peli golff. Erbyn hynny roedd Ashley, o leiaf yn weddol ddiogel yn ei babell, ond roedd nifer o'r cystadleuwyr yn parhau i geisio cyrraedd eu nôd!

Parhad Tud 3

Llances a Llanciau'r Llechen

Gwnaeth unigolion o'r fro eu marc yn ail gystadleuaeth "Llanc y Llechen" sef Triathlon y Slateman a gynhaliwyd yn Llanberis ar ddydd Sul, 20fed o Fai. Yn dilyn llwyddiant digamsyniol y llynedd, daeth dros saith gant a hanner o gystadleuwyr i Gae'r Ddôl i nofio, beicio a rhedeg, ac er fod pryderon ynglyn ag oerni dwr Llyn Padarn, doedd neb yn cwyno'n ormodol! Trefnwyd y gystadleuaeth eleni eto gan gwmni lleol "Camu i'r

Copa / Always Aim High", ac yr oedd y cystadleuwyr i gyd yn brolio'r trefniadau



Fiona Nesfield

manwl. Bydd y cwmni yn trefnu dwy driathlon arall cyn diwedd y flwyddyn a



Alun Vaughan, Gareth McGuinness ac Owain James

hefyd Etape Eryri, sef taith feics o amgylch Eryri yn ystod mis Mehefin.

**RHIF 400
MEHEFIN 2012**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swñ-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swñ-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL, 17 Mehefin
Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 28 Mehefin.

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn

Gorffennaf

Copi

17 Mehefin

Gosod

21 Mehefin

Plygu

28 Mehefin

Ble

Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr

Wikipedia

Y wefan fwy yn y Gymraeg – drwy'r cread crwn – ydy Wikipedia. Pobol fel chi a fi sydd wedi'i chreu, ac yn dal i'w chreu o ddydd i ddydd.

Mae Wikipedia Cymraeg (efo 'c' sylwch) yn cael ei defnyddio fwy o weithiau y diwrnod nag unrhyw wefan arall, gan blant yn fwyaf, i wneud eu gwaith cartref. Yn wir o'r 36,000 o erthyglau sydd gennym, mae 2.7 miliwn o'r tudalennau'n cael eu darllen (neu o leiaf eu hagog!) pob mis ar gyfartaledd: mwy na gwefan y BBC, hyd yn oed. Bydd y cyfarfod cyntaf o Wikipedia Cymraeg yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 30 Mehefin – carreg filltir yn y byd cyhoeddi yng Nghymru.

Mae 90% o'n herthyglau'n ymddangos yn neg uchaf porwyr megis Gwgl, sy'n aruthrol o uchel, fel mae busnesau yn dechrau sylweddoli. Mae hyn yn ffordd rhad o gyrraedd eich cynulleidfa. Rhad? Nage: am ddim! Does dim un hysbyseb ar Wikipedia i amharu ar eich darllen, ychwaith: mae hi'n gwblw annibynnol o grantiau'r Brawd Mawr.

Teipiwrch 'Wikipedia' yn Gwgl ac fe'i cewch. Teipiwrch enw eich cartref neu ardal ac fe welwch erthygl fer arni. Uwch ei phen fe welwch y gair 'Golygu' ac mae hon yn agor ffenestr i chi ychwanegu pwt am eich pentref neu dref. Gallwch ychwanegu erthygl hefyd os nad oes un ar gael: am eich cartref, os yw'n hen neu wedi'i gofrestru gan Cadw; gallwch ychwanegu hanes eich hen Nain hyd yn oed – os ydy hi wedi cyflawni rhywbeth go arbennig. Oes gennych chi hen luniau i'w hychwanegu? Cliciwrch ar 'uwchlwytho ffeil'. A beth am eich Papur Bro? Oes yna erthygl arno? Sgwennwch un!

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi hyfforddi cyrff megis 'Cancer Research' ar sut i greu, golygu a chywiro erthyglau – mae nhw'n deall mor bwerus ydy Wikipedia. Yn wahanol i lyfrau traddodiadol, mi fedrwn ni gywiro camgymeriadau neu ffeithiau cyfoes o ddydd i ddydd. Mae erthyglau ar leoliadau, e.e. Copaon mynyddoedd i'w gweld hefyd ar Google Maps neu ar eich ffôn llaw!

Er mwyn rhannu syniadau a hyfforddi pobl sut i greu a golygu'r enseiclopedia Cymraeg mwyaf, bwriadwn gynnal cyfarfod ('Golygathon') yng Nghaerdydd: yn y Llyfrgell Ganolog ar 30 Mehefin rhwng 9.30 a 5.00. Bydd yno resi o gyfrifiaduron a llu o olygyddion profiadol i'ch helpu. Piciwrch i mewn am sgwrs fer neu arhoswch efo ni drwy'r dydd yn uwch-lwytho gwybodaeth am eich diddordeb, neu am eich hen Nain.

Byddwn hyn yn oed yn darparu cinio i chi, am ddim. Am ragor o fanylion ewch i Wikipedia Cymraeg a theipiwrch 'Golygathon Caerdydd 2012'. Neu e-bostiwrch Rhys Wynne ar rhyswl@gmail.com.

Mae Wikipedia'n mynd o nerth i nerth, a gallwch fod yn rhan o'r chwyldro hwn efo un clic! Helpwch eich plant a holl ieuenctid Cymru i sicrhau fod ein hanes a'n hetifeddiaeth NI yn parhau am ddim i'r byd mawr crwn. Mae dros 700 o erthyglau ar loynnod byw a gwyfynod wrthi'n cael eu creu yn ystod yr wythnosau nesaf: ydy manion dibwys fel y rhain o werth? Ydyn! Mae nhw'n rhan o gyfoeth yr amrywiaeth, mae nhw yn Gymraeg, ac mae nhw am ddim.

*Yn gywir
Llywelyn Elias
Rhys Wynne
Wikipedia Cymraeg*

Cymdeithas Diogelu Hen Beiriannau Amaethyddol Gogledd Cymru

Gan fod Eisteddfod yr Urdd a'r arddangosfa flynyddol o hen beiriannau yng Nglynllifon yn gorgyffwrdd, mae'r arddangosfa eleni i'w chynnal ar 24 Mehefin. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys crefftau gwledig, peiriannau o bob math ynghyd â nifer o weithgareddau eraill.

ERHODDION

£50: Ysgol Brynrefail.

£25: Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen. (anghywir mis Mai, ymddiheuriadau)

£20: Eunice Roberts, 4 Y Rhos, Bethel (er cof am Gwilym M Roberts); Er cof am Ellen Roberts, 3 Bryn Moelyn; Teulu Mrs E. Jones, Lyndale; Mrs Eirwen Williams, Bryn Gro.

£10: Marian Thomas Trawsfynydd; Di Enw; Seiriol a Bet Owen Tan y Cae, Bethel; Er cof am Pat Williams, 5 Water Street, Llanberis; Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Oleu, Deiniolen; Emma, Daniel a Jessica, Deiniolen; Er cof am Nia Pritchard, 58 Dôl Elidir, Llanberis; Mrs Lilian Eoberts, Glanffynnon; Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun. Meirion Pritchard, Ty Isaf, Nant Peris.

£6.50: Arwyn Thomas, Stourbridge; Mrs E. Griffiths, Drenwydd; J. Evans-Hughes, Kirby, Muxloe; Eleri Jones, Llanellwly.

£5: Emyr Wyn Jones Wenallt, Bethel; Mrs Nancy Williams, 28 Bro Eglwys, Bethel; Alan Pritchard, Dolafon; Lynwen Morris, Perthi, Bethel; Janet Vaughan, Yankee Street, Llanberis; Mrs Eirwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen; Teulu Llewyn.

£2.50: Miss E. Williams, Llwyndyrys.

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Parhad Marathon o Farathon ym Morocco



Bwgan mwyaf y cystadleuwyr oedd dau gamel. Roedd y ddau yn cael eu harwain gan ddau aelod o lwyth lleol y Bedouin, ac yn cychwyn cerdded yn syth ar ô cychwyn pob cymal. A byddai'r ddau gamel yn cerdded drwy'r dydd. Os byddai'r camelod

yn goddiweddyd cystadleuwr, golygai hynny nad oedd yn teithio'n ddigon cyflym, a chai ei dynnu allan o'r ras!

Ddaeth yr un o'r camelod yn agos at Ashley, a chwblhaodd y ras yn safle 266. Roedd dros wyth gant a hanner wedi cychwyn, ond methodd dros

gant a gorffen am wahanol resymau. Ei amser oedd 39 awr 26 munud a 47 eiliad. Ac er fod Ashley dros ei hanner cant oed, nid y fo oedd yr hynaf. Roedd un cystadleuwr yn cwblhau'r cwrs am y pymthegfed tro, ac yntau'n wythdeg oed.

Wedi cwblhau uchelgais oes, beth sydd ar ôl i Ashley bellach? Mae'n awyddus i dorri ei record bersonol yn Ras yr Wyddfa, a byddai wrth ei fodd yn rhoi cynnig arall ar y Marathon des Sables.

Ein llongyfarchiadau iddo am gwblhau ras mor drybeilig o anodd, ond hefyd am godi dros £1,000 tuag at Hosbis Dewi Sant – ac y mae'r gronfa yn dal ar agor. Gallwch gyfrannu drwy gysylltu â <http://www.justgiving.com/Ashleywager>.



LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenydd

Mae Cwmni Da yn chwilio am atgofion pobl am raglenni S4C ar gyfer rhaglen fydd yn dathlu pen-blwydd y sianel yn 30 oed eleni. Ydych chi'n cofio ble roeddech chi noson lansiad S4C 'nôl ym mis Tachwedd 1982? Beth am ei phen-blwydd yn ddeg neu ugain oed?

Pa raglenni ydych chi wedi eu mwynhau fwyaf ar S4C? A oes unrhyw ddigwyddiad arbennig neu raglen benodol sy'n aros yn y cof? A oes unrhyw raglen wedi gwneud i chi chwerthin neu grio llong eich bol?

A oes gennych chi hoff cyflwynwyr neu actorion sydd wedi ymddangos ar S4C ers i'r sianel gychwyn 'nôl ym 1982?

Ydych chi erioed wedi ymddangos ar un o raglenni S4C? Beth yw eich atgofion o'r profiad hwnnw? Ydych chi wedi cyfarfod â chymar neu ennill gwobr fawr trwy gyfrwng un o'i raglenni? A oes gennych chi unrhyw atgofion am raglen ar S4C gafodd ei ffilmio yn eich ardal chi?

Beth bynnag fo'r stori, mae gennym ddiddordeb ei chlywed.

Cysylltwch â Cwmni Da, Hen Ysgol Aberpwll, Ffordd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS. Ffôn 01248 671167 neu e-bost meinir.williams@cwmnida.tv

Annwyl Ddarllenwyr,

Cynhaliwyd gweithdy gwerin hwyliog yn haul braf ddiwedd Mawrth yn yr Amgueddfa Lechi. Dyma oedd digwyddiad gyntaf cynllun Sesiwn Dros Gymru 2012 Clera yng Ngogledd Orllewin Cymru. Cafwyd sesiwn gloi fendigedig gyda phob grŵp yn dod ynghyd i gyd-chwarae yn ystafell y Caban sydd, fel mae'n digwydd, ag acwstics bendigedig!

Un byrdwn o gynllun Sesiwn Dros Gymru yw i annog a datblygu gweithgarwch gerddorol gymunedol anffurfiol a hynny trwy gyfrwng cerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

Os hoffech roi tro arni, cynhelir dau weithdy pellach yn yr Amgueddfa Lechi, gyda'r nesaf ar Dydd Sul, 22ain Ebrill am 1pm-4.30pm. Y tiwtoriaid fydd Stephen Rees (sylfaen), Sioned Webb (canol) a Huw Roberts (uwch). Cost mynychu yw £7.50 i oedolion, £5 i blant, a £5 i deulu (1 oedolyn + plant). Bydd y gweithdy nesaf wedyn ar Dydd Sadwrn 19eg Mai am 1pm-4.30pm gyda'r tiwtoriaid Sioned Webb (sylfaen), Patrick Rimes (canol) a Stephen Rees (uwch). Nid oes angen profiad blaenorol o chwarae cerddoriaeth werin i fynychu.

Os am fanylion pellach neu i gofrestru cysylltwch â Catrin ar (01286) 831344 / catrin@sesiwn.com. Ceir holl fanylion y cynllun ar y wefan www.sesiwn.com

Catrin Meirion
Cydlynnydd Gogledd Orllewin Cymru
Sesiwn Dros Gymru 2012
Gweithdai Gwerin CLERA

Maesyfed, 30 Tudor Gardens
Castell Nedd, SA10 7RX
01639 620171

Cofiant D.J. Williams (Llanbedr) 'Y D.J. Arall'

Yr wyf yn bwriadu llunio cofiant i'm hewythr, D.J. Williams (1886-1950), yr awdur llyfrau a gwerslyfrau i blant a sylfaenydd HWYL, y comic cyntaf yn y Gymraeg.

Os oes gan ddarllenwyr Eco'r Wyddfa luniau ohono, lythyrau oddi wrtho, neu atgofion amdano ayyb, byddwn yn dra diolchgar i dderbyn gair neu alwad ffôn ganddynt.

Yn gywir

Gwenith Baker

Patrickgwenith@aeol.com

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Aeth blwyddyn heibio fel y gwynt a daeth yn amser i geisio am grantiau o'r Gronfa uchod.

Da o beth yw gwybod fod y grantiau i'w rhoddi i ddisgyblion o Ysgol Brynrefail, Llanrug, sef y disgyblion sydd yn byw yn unrhyw blwyf o ddalgylch yr Ysgol. Cred rhai mai grantiau a roddir i ddisgyblion o Blwyf Llanberis yn unig a roir. Nid cywir mo hynny o gwbl. Mae'r grantiau ar gael i ddisgyblion a driga yn y plwyfi eraill o ddalgylch yr Ysgol, megis Llanrug, Llanddeiniolen a Waunfawr.

Rhaid cofio hefyd mai dyddiad cau'r ceisiadau yw Awst 31ain. Ni ystyrir cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad penodedig hwn.

Felly, disgyblion sydd yn gadael yr Ysgol eleni ac ar drothwy gyrfa, gwnewch gais mewn pryd am gymorth ariannol o Gronfa Goffa R.H. Owen.

Cronfa Goffa R. H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r Ysgrifennydd-

John H. Hughes

**"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis
Gwynedd LL55 4SH
Ffôn-(01286) 871562**



**Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn AWST 31ain. 2012
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ol y dyddiad cau penodedig**





Phil Lynes

Parhad Llances a Llanciau'r Llechen

Roedd y ras tim eisoes wedi ei hennill – ar bapur – gydag enillwyr y llynedd yn cystadlu eto, a hwy oedd y ffefrynnau eleni hefyd. A chwarae teg iddynt, fe gadwyd at y fformiwla fuddugol, gydag Owain James (nofio), Gareth McGuinness (beicio) ac Alun Vaughan (rhedeg) yn chwalu eu gwrthwynebwyr. Yn ail yn yr un gystadleuaeth roedd tim Mike Pepper (nofio), Dafydd Williams (beicio) a Dylan W. Jones (rhedeg).

Daeth unigolion eraill i'r brig hefyd, gydag Iwan Morton (Cwm y Glo) a Phil Lynes (Llanrug) yn cael canlyniadau da iawn yn y Triathlon llawn.

Yn y Triathlon fyrrach – y Sprint, (a dyna enw hollol anaddas os bu un erioed), daeth merch o'r Waunfawr yn fuddugol. Mae Fiona Nesfield bellach yn cystadlu'n frwd, ac wedi ennill cystadleuaeth gyffelyb yn y Cotswolds. Mae wedi gwella ei safon yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac yn cael ei noddi gan "The Triathlon Shop Felt". Mae'n well ganddi feicio, a doedd y rhedeg drwy hen chwarel Dinorwig ddim wrth ei bodd! Ymlaen bellach am y Triathlon llawn!



Iwan Morton

Newid Ddaeth



Mae hen Ysgol Glanmoelyn Llanrug bellach wedi ei dymchwel, a hynny ar ôl cant wyth deg o flynyddoedd. Bydd y safle yn cael ei ddatblygu ar gyfer adeiladu tai.

Mae'r llun yn dangos yr ysgol yn 1907 gyda dosbarth o blant y tu allan. Daeth oes yr

adeilad fel ysgol i ben yn 1926 pan agorwyd Ysgol Ganol newydd yn Llanrug, sef yr Ysgol Gynradd bresennol. Yn ystod y ganrif ddiwethaf fe'i defnyddiwyd fel neuadd a gweithdai gwahanol gwmnïau. Roedd y safle'n wreiddiol yn rhan o dir Pwll Moelyn, eiddo cyhoeddus y plwyf.



Criw o ieuenctid yr ardal a fu ar daith i gopa'r Wyddfa ar ran yr Urdd gyda Neges Ewyllys Da.

CHIROPODYDD

GALWADAU I'R CARTREF

RICHARD THOMAS SRCH/HPC

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

YSGOL BETHEL



LLONGYFARCHIADAU mawr i Cai Llwyd Jones, dosbarth Gwyrfai ar ei lwyddiant ysgubol yn ddiweddar mewn cystadleuaeth tenis yn Wrecsam. Dalier ati Cai - 'da ni i gyd yn falch iawn ohonat yn Ysgol Bethel.

ELIN FFLUR. Yn dilyn cais gan y Cyngor Ysgol, fe ddaeth Elin Fflur draw ar Fai 3ydd i ddiddanu y plant. Cawsom i gyd brynhawn bendigedig yn ei chwmini. Roedd y plant a'r staff wedi cael modd i fyw yn gwrando arni'n canu. Diolch Elin!

MYNYDD GWEFRU. Fe gafodd yr Adran Iau daith ddifyr iawn i Lanberis yn ddiweddar. Cafodd y plant i gyd daith o dan ddaear i weld rhyfeddodau Mynydd Gwefru. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

GENOD GWAU. Mae ein dyled yn fawr i Anti Fal, Anti Mary ac Anti Betty sy'n dod i'r ysgol bob prynhawn Gwener i roi cyfle i blant hynaf yr ysgol ddysgu gwau. Mae'r genethod a'r bechgyn wedi dysgu sgiliau newydd sbon ac wedi cynhyrchu gwaith gwau hyfryd yng nghwmni ein gwirfoddolwyr. Diolch yn fawr iawn.

CLWB CHWARAEON. Diolch hefyd i Mr Richard Llwyd Jones sydd wedi cychwyn dod i'r ysgol ar brynhawn Gwener i roi sesiynau chwaraeon i ddosbarth Elidir. Diolch yn fawr Richard, mae'r plant i gyd yn mwynhau.

P R O S I E C T AMGUEDDFA LECHI.

Mae dosbarth Elidir wedi bod yn rhan o brosiect Amgueddfa Lechi Cymru. Fel rhan o ddathliadau yr amgueddfa yn 40 oed eleni, bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn paratoi cyflwyniadau Pŵer Bwynt ac hefyd yn ffilmio cyfweiliadau efo rhai o staff yr amgueddfa. Bydd ffrwyth llafur y plant yn cael ei ddangos i gynulleidfa byd-eang cyn diwedd y mis, pan fydd yn rhan o wefan newydd yr amgueddfa. Cofiwch fynd draw i'r wefan i weld gwaith caled y plant.

DIWRNOD FFRENGIG.

Bu'r ysgol yn dathlu diwrnod Ffrengig ar 11eg o Fai. daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisgoedd Ffrengig. Roeddent werth eu gweld. Cafodd pob dosbarth ddiwrnod difyr iawn yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud a Ffrainc - coginio a blasu croissants, dysgu cyfiri yn Ffrangeg, dysgu enwau rhannau'r corff yn Ffrangeg a chanu amrywiaeth o ganeuon hwyliog. Bu Anti Carys, Anti Val ac Anti Cynthia yn brysur iawn yn y gegin yn paratoi cinio Ffrengig i'r plant hefyd. Blasus dros ben. Diolch i Mrs Cecile Roberts, mam Dylan ac Owain, am ddod i'r ysgol hefyd i siarad Ffrangeg a rhoi dipyn o hanes Ffrainc i bob dosbarth. Efallai mai un o uchafbwyntiau y dydd i nifer o'r plant oedd cael blasu malwod! Roedd nifer o'r plant yn ddewr iawn ac yn awyddus iawn i flasgu rhywbeth 'gwahanol'!!



TAITH Y BABANOD I PILI PALAS A DINAS DINLLE

Cafodd adran y babanod daith wych i Pili Palas yn ddiweddar ac fe gafodd pob un plentyn eu rhyfeddu gan y creaduriaid arbennig sydd yno! Yn y prynhawn fe gafodd y ddau ddosbarth fynd i'r traeth yn Ninas Dinlle a threulio amser yn creu celf yn yr awyr agored. Diwrnod ffantastig!!

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m. - 7.30 p.m.
(Llun - Sadwrn)
6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, 11 Ebrill, croesawodd y Llywydd, Rita Dauncey Williams, bawb i'r cyfarfod a phleser oedd ganddi hefyd groesawu a chyflwyno ein gwraig wadd ar y noson, sef Bethan Wyn Jones o Dalwrn, Ynys Môn, i roi sgwrs ar 'Blanhigion Meddyginiaethol'. Cafwyd noson hynod ddifyr yn gwrando arni yn sôn am amrywiaeth o blanhigion, eu cynefin a'r defnydd a wnaed ohonynt flynyddoedd yn ôl ar gyfer gwella gwahanol gyflyrau iechyd. Cyfunwyd y sgwrs gyda lluniau o'r planhigion y soniodd amdanynt. Roedd amryw ohonynt yn gyfarwydd i ni, gan y'i gwelir yn tyfu'n wyllt o'n cwmplas ar ochr y ffyrdd a'r cloddiau a rhai eraill, megis y perlysiâu, yn y gerddi. Diddorol oedd y wybodaeth a gafwyd amdanynt ac yr oedd pawb wedi mwynhau'r sgwrs yn fawr.

Talwyd y diolchiadau gan Gwyneth Jones.

Yr ydym fel cangen yn cydymdeimlo â Delyth Williams a'i theulu yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Dafydd Parry.

Braf oedd gweld Nancy Williams yn ôl efo ni a da deall fod Eryl Roberts yn gwella hefyd, gan obeithio gweld Ann, Sharon a hithau yng Ngwinllan Pant Du y mis nesaf.

Dymunwn wellhad buan ac anfonwyd ein cofion at Lynwen, sydd yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Glenys a Morgan ar ddathlu eu Priodas Ruddem, i holl blant a phobl ifanc y pentrefsydd ar eu ffordd

i Glynllifon i Eisteddfod yr Urdd, i Brenda ar ddod yn nain i Jac, sydd erbyn hyn yn dri mis oed, mab Gethin a Bethan, ac yn nain hefyd fis yn ôl i Gareth a Dafydd, efeilliaid i Glesni ac Ian.

Hysbyswyd pawb am yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ymwneud â'r Mudiad.

Etholwyd is-Swyddogion ac aelodau o'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf:

Llywydd: Glenys Griffith; Is-Lywydd: Jen Roberts; Ysgrifennydd: Eirlys Williams; Trysorydd: Nora Parry; Is-Drysorydd: Gwyneth Jones gyda Anne Elis, Margaret Druce, Dilys Perez, Mary Evans, Gwyneth Williams ac Alys Jones yn aelodau o'r pwyllgor.

Diolch i Eirlys Williams am drefnu'r baned ac i Jen am helpu i baratoi. Enillydd y raffl oedd Anne Elis.

Ymweld â Gwinllan Pant Du, Penygroes, fyddwn ni nesaf a hynny ar nos Fercher, 9 Mai.

* * *

Ymweld â Gwinllan Pant Du ym Mhenygroes fu hanes y gangen ym mis Mai. Croesawyd pawb, gan gynnwys y perchennog, Richard Wyn Huws, gan y Llywydd. Cyn i'r glaw dywallt, cawsom ymweld â rhai gwinllannoedd a pherllannau, cyn troi yn ôl am Bant Du i gynhesrwydd yr adeilad hardd.

Er mawr siom, nid oedd yn bosib i Ellen, ein hysgrifenyddes, fod yn bresennol, a chydymdeimlwyd â hi yn ei phrofedigaeth. Yn ogystal, llongyfarchwyd

Gwynfor ac Ellen ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Dau arall sy'n dathlu eu Priodas Aur yw Seiriol a Beti a dymunwyd yn dda iddynt, ynghyd â Dafydd, mab Sheila, fydd yn priodi gyda Elen Robinson y mis yma. Da deall fod Lynwen yn gwella a dymunwyd adferiad buan hefyd i Haf, merch Falma, yn dilyn damwain ddrwg yn mynydda.

Pleser oedd cyhoeddi fod Anne Elis wedi derbyn y swydd o is-Ysgrifenyddes y gangen, ac fe wnaeth Rhian gytuno i fod yn aelod o'r pwyllgor. Rhannwyd rhifyn cant saith deg pump o'r Wawr a diolchwyd i Glenys am ofalu am y dosbarthu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwyneth Jones, Anne Elis, Falma, Bet, Mary a Rita fydd ym mhabell Merched y Wawr yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd ddydd Iau, rhwng 10.15 a 12.145. Cofiwch alw am baned!

Darllenwyd llythyr wedi'i dderbyn gan Bwyllgor yr Anabl yn ein hysbysu fod £1,737.00 wedi ei godi at Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri. Diolch i Glenys ac Eirlys Williams am ein cynrychioli. Bydd y Ffair Haf ar Fehefin 15 ac fe fydd bwrdd gwerthu yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 22 o 10 y bore ymlaen. Apeliodd Glenys am aelodau fyddai'n fodlon casglu er budd Ymchwil y Galon fis nesaf.

Os am wersi nofio i rai dros 50 oed, cysylltwch â Chanolfan Hamdden Arfon - mae'r Cynulliad yn ariannu'r hyfforddwy. Roedd manylion ar gael am y Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont

Steffan, testunau'r Ffair Aeaf ar gyfer Crefft a Choginio, a'r Wyl Haf ym Machynlleth.

Cafwyd manylion ynglŷn â 'Pentre Bach'; nodwyd fod llyfr Merched y Wawr, sy'n olrhain hanes y mudiad, newydd ddod o'r Wasg a hysbyswyd yr aelodau am daith Merched y Wawr Llanrug a'r Cylch i Sempringham ar Fehefin 30 - 1 Gorffennaf 2012.

Cyfarfod olaf y tymor fydd ymweliad â Moelfre. Bydd y bws yn cychwyn o Cysegr am 5.45. Estynnwn groeso i wrando ar sgwrs gan Y Parch Huw John Hughes ar 'Milgi Chwim y Weilgi' am 6.30 yng Nghapel Carmel, Moelfre. Dymunwn gydnabod nawdd ariannol gan Llenyddiaeth Cymru at hyn. Gorffen y noswaith gyda phryd o fwyd yn Anne's Pantry, Moelfre.

Wedi'r ohebiaeth cafwyd cyfle i ddychwelyd at naws gartrefol Pant Du ac amser i flasau a bwyta. Cawsom sgwrs hynod ddifyr ac addysgiadol gan Richard, gydag ymateb bywiog gan yr aelodau. Cafwyd hanes cychwyn y winllan ym Mhant Du yn 2007, ac eglurodd sut y dewiswyd y logo ar gyfer y fenter. Drwy gyfrwng sgwrs a lluniau, soniodd am y datblygiadau sydd wedi bod yno dros y blynnyddoedd, ac roedd pawb yn tystio iddynt gael noson i'w chofio.

Diolchwyd yn ddiwyll a hwyliog i Richard gan Rhian. Enillwyr y raffl oedd Bet, Ann Lewis a Jen. Diolch i Derfel Owen, y gyrrwr bws, am ofalu fod pawb yn cyrraedd adref yn saff ar noson mor stormus.



NECACO

Dyma lun o rai o weithwyr NECACO sef North East Coast Aircraft Co. adeg yr Ail Ryfel Byd. A oes unrhyw un yn eu hadnabod? (Llun Mrs Eunice Roberts, Bethel)

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorrffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyraeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

DIOLCH. Dymuna Seiriol a Bet ddiolch am y cardiau cyfarch, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch arbennig i Gweno, Mari a Meinir a'u teuluoedd am yr holl ddathliadau annisgwyl.

DIOLCH. Dymuna Llynwen Morris, Perthi, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Diolch yn arbennig i'r Sister a staff ward Padarn, Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CLWB BRO BETHEL. Croesawyd pawb i gyfarfod y mis yma gan y Llywydd y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Y siaradwr gwadd oedd Donald Pritchard, Pensarn, Ynys Môn a bu'n sgwrsio yn ddifys iawn am storiâu a chwedlau ysbrydol yn gysylltiedig ag Ynys Môn ac hefyd gyda'i deulu ei hun. Roedd yn storiwr naturiol ac yn hawlio sylw y gynulleidfa o'r gair cyntaf hyd y diwedd.

Y trip sydd nesaf a hynny ar ddydd Mawrth 12. Bydd y bws yn cychwyn o Penrhos am 11.30. ac yn codi yn y mannau arferol.

CAPEL Y CYSEGR. Diolch i'r merched am gasglu y swm o £197 oddi wrth aelodau'r capel yn ddiweddar. Trosglwyddwyd yr arian i Drysorydd Cyfeisteddfod Chwiorydd Arfon sydd yn mynd tuag at waith y Genhadaeth.

MARATHON LLUNDAIN. Yn rhifyn Ebrill yr Eco adroddwyd fod Dafydd Jones, Tan y Buarth, yn rhedeg Marathon Llundain er budd Y Gymdeithas Strôc. Erbyn hyn

gellir adrodd fod Dafydd wedi cwblhau y farathon ac wedi casglu £480 at y gymdeithas.

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac mae Dafydd yn diolch i bawb am eu haelioni.

P W Y L L G O R EISTEDDFOD BETHEL.

Dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron.

Bydd cyfarfod dewis testunau cystadlaethau Cerdd a Llefaru yn cael ei gynnal nos Fawrth 26.6.2012 yn Festri Capel Cysegr am 7pm.

Ar Orffennaf y 10fed 2012 bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor - eto yn Festri Capel Cysegr am 7pm.

Nodir hefyd bod dyddiad cynnal Noson Goffi i gasglu enwau ar gyfer cystadlaethau partion a rhannu testunau hefyd wedi ei bennu fel Medi 14eg 2012 (Festri Capel Cysegr).

DIOLCH. Dymuna Mrs Beryl Parry, Delyth, Carys a'r teulu ddiolch o galon am y cardiau a rhoddion a dderbyniwyd er cof am y diweddar Mr David Lewis Parry, Hafod Elen. Bu'r rhoddion yn cael eu rhannu rhwng Capel Saron a Meddygfa Waenfawr. Diolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd.

DIOLCH. Mae Mrs Nancy Williams, 28 Bro Eglwys, yn diolch i bawb am eu dymuniadau da yn dilyn ei thriniaeth diweddar yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Glenys a Jenkin Griffiths, Llwyn Eithin, ddiolch yn garedig iawn i'w cyfeillion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd, wrth iddynt ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar.

Cydymdeimlad: Bu farw John Griffith, Rhanna, Stad Glandŵr, yn 96 oed dechrau mis Mai. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Caeathro ar 9fed o Fai ac wedyn yn amlogfa Bangor. Cydymdeimlwn gyda Laura a'r teulu i gyd.

Llongyfarchiadau. Bu dathliadau mawr yn Nhyddyn Bach wrth i Eluned Hughes dathlu pen-blwydd yn 90 oed.

Newyddion y Capel. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mehefin:

Sul 5 Mehefin - 9:30 - Uno yn Oedfa Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Dim Ysgol Sul nac Oedfa yng Nghaeathro.

Sul 12 Mehefin [Pentecost] - Dim Oedfa nac Ysgol Sul.

Sul 19 Mehefin - 10:00 Mr Edward Morus Jones [Noder, nid J H H], 11:00 Ysgol Sul

Sul 26 Mehefin - 11:00 Ysgol Sul.

Tynfa Fisol. Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mai oedd:-

1af - £40, rhif 62 Ceri Watthney, 13 Tai Glangwna;

2il - £25, rhif 66, Nia Hughes, 10 Tai Glangwna;

3edd - £15, rhif 64 Vera Roberts, Monfa;


4edd - £5, rhif 19 Karen

Element, Plas Glangwna Uchaf.

P e n - b l w y d d . Llongyfarchiadau i Dafydd Roberts, 5 Brynteg, ar ôl iddo ddathlu ei phen-blwydd yn 75 oed.

Gohebydd yr Eco yng Nghaeathro. Bwriad y gohebydd presennol - Clive James, yw ymddeol o'r swydd fel Gohebydd pentref a bro Caeathro am yr ugain mlynedd diwethaf, a hynny dim hwyrach na mis Rhagfyr 2012. Gwaith y Gohebydd yw casglu newyddion, naill ai deunydd sy'n cael ei baratoi gan eraill neu newyddion a gesglir ar ei liwt ei hunan, a'u trosglwyddo i'r Golygyddion. Gall y Gohebydd newydd ddewis gweithio ar y cyd am gyfnod neu gymeryd drosodd ar ddyddiad i'w gytuno. Heb ohebydd yn y pentref bydd llawer llai o newyddion o Gaeathro yn Eco'r Wyddfa!

Digwyddiad yn yr Haf. Fel canlyniad i ymateb cadarnhaol i gynnal digwyddiad yng Nghaeathro yn ystod yr haf, bydd cyfarfod i bawb sy'n awyddus i drafod y posibilïadau ymhellach - ac sy'n fodlon cynorthwyo gydag unrhyw drefniadau, yn Nhafarn Bryn Gwna am 8:30, nos Lun 20fed o Fehefin.



FFENESTRI • DRYSAU Conservatori UPVC

Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)



BOSCH Service

Car Service

www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD

SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO

ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN

CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service

SEFYDLIAD

MERCHED Yng nghyfarfod Ebrill ar nos Iau 19eg, Anita Long oedd y wraig wâdd yn arddangos gwaith llaw arbennig. Roeddeichi flywyniad yn dangos manylder y gwaith gyda straeon amrywiol am y personau a'r deunyddiau amrywiol oedd wedi rhoi syniadau iddi. Cafwyd cyfle yn dilyn i drafod nifer o weithgareddau sydd ar y gweill yn y dyfodol.

Yn ystod mis Ebrill bu i'r tim dartiau gymryd rhan yn y gystadleuaeth yng Nghlwb Golff Pwllheli. Aeth nifer o'r aelodau i gefnogi. Er na fu'r tim yn fuddugol gwnaethant gyfrif da ohonynt eu hunain.

Treuliwyd diwrnod diddorol iawn yn ogystal ym Mhlas Tan y Bwlch gyda'r aelodau yn dilyn cyrsiau ffotograffiaeth a gemwaith. Hefyd cafwyd blas ar saethyddiaeth yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Nantlle. Roedd y gweithgaredd hwn dan arweiniad 'Dyffryn Nantlle Archers' a phawb wedi mwynhau eu hunain ac mae trefniadau ymlaen i gael dosbarthiadau yn y dyfodol agos.

Yng nghyfarfod y gangen leol nos Iau Mai 17eg adroddwyd am yr Argymhellion Cenedlaethol Blynnyddol dan arweiniad y llywydd Pat Jones. Eleni un mater oedd dan sylw sef yr annogaeth i gyflogi mwy o fydwragedd a chynyddu hyfforddiant. Pleidleiswyd yn unfrydol o blaid.

Nid oedd y wraig wadd Falmai Matula, Y Gyfrinach Felys yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond yn ffodus daeth Steve Long i adrodd ei hanes

mewn cysylltiad a'i waith yn India. Dangosodd sleidiau o'r ardal lle'r oedd yn aros yn Leh lle cafodd y fraint o gyfarfod y Dalai Lama. Diolchwyd am ei sgwrs ddiddorol ac am lenwi'r bwlch ar fyr rybudd.

Bydd gweithgareddau'r Clwb Cerdded yn cychwyn ar Fai 31ain, y Bowlio Deg ym Mharc Glaslyn ar Fehefin 6ed a gweithgaredd arbennig fydd ymlaen ar Fehefin 30ain fydd y Diwrnod Rhyngwladol yn y Ganolfan yn Llanberis.

YREGLWYS

BRESBYTERAIDD

YMWELIAD CYMDEITHAS BODFFORDD Bnawn Mawrth, Mai 8fed cafwyd ymweliad gan tua deugain o gyfeillion o Ynys Môn i'n plith. Gwahoddwyd swyddogion yr eglwys gan y Parch Idris Thomas, Deiniolen, cydlynnydd trip cyfeillion Bodffordd i adrodd am y datblygiadau diweddar yn ein hanes - i arddangos adeiladau'r capel ar eu newydd wedd a'n safle addoli bresennol yn Caban. Llwyddwyd i dywys pawb yn esmwyth drwy eu rhannu yn ddau grwp, y naill yn gyntaf yn ymweld â'r Caban a'r llall yn cael eu croesawu i gartref Dafydd a Moira Ellis ar bwys y capel. Oddiyno a cawsant olygfa o'r tai hardd sydd wedi eu ymgorffori yn adeiladau'r capel a'r festri a chael cyfle i werthfawrogi gwaith crefft mewn coed ac arlunio Dafydd a Moira, eu cartref a'u gerddi arbennig o hardd. Rhoddwyd sgwrs yn Y Caban gan Lowri Roberts Williams ar hanes sefydlu'r Achos a chodi'r adeiladau, y cysylltiad agos fu dros y blynnyddoedd â'r

Ysgol Sir a'i gweithgareddau a'r Ysgol Fabanod a leolid yn adeilad y Festri. Gwyn Hefin Jones roddodd adroddiad o'r cyfnod diweddar pryd y bu raid i'r aelodau wynebu penderfyniadau ynglyn â'r adeiladau oherwydd eu maint a'u cyflwr, yr ymgais i sefydlu canolfan gymunedol ar y safle fu'n aflwyddiannus oherwydd y gwariant helaeth yr un pryd ar safle'r hen Ysgol Sir ond sydd erbyn heddiw yn fan addoli i'r gynulleidfa. Bu tro ar fyd - "Y Capel lle bu'r ysgol, a nawr, lle bu'r Ysgol mae'r capel". Treuliwyd amser pleserus yng nghwmni ein gilydd gyda Jennie Angharad Roberts yn dwyn atgofion pellach i sylw ac yna gymdeithasu dros baned yng Nghaffi Caban. Diolchwn i'r Parch Idris Thomas am y cyfle i groesawu ein cyfeillion o ardal Bodffordd.

Y GYMDEITHAS Bu cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Mai 10fed. Gwahoddwyd Manon Ellis Williams, Bethel i'n plith. Oherwydd ei chysylltiad teuluol â Jennie Angharad Roberts, naturiol mai hi oedd cadeirydd y cyfarfod a hefyd hi oedd yn ymgymryd â'r defosiwn agoriadol. Treuliwyd noson arbennig o ddiddorol gyda Manon yn adrodd ei phrofiadau amrywiol tra'n gwneud gwaith elusennol yn Ne Affrica a De Korea a'i

galwedigaeth ddiweddrad fel Prif Swyddog Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yng Ngwynedd Môn a Chonwy. Mawr oedd ein diolch iddi am ei thraddodi hwyliog a'r cyflwyniadau darluniadol. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 14eg gyda sgwrs gan Lowri Roberts Williams.

YMUNO

MEWN

GOFALAETH

Bu'n ofynnol yn ddiweddar yn dilyn penderfyniad Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru i bob eglwys ddod dan ofal bugail. Fel un o bedair eglwys ddi-fugail yn Henaduriaeth Arfon mynegwyd gwerthfawrogiad gan yr henaduriaeth o'n parodrwydd fel eglwys, wedi trafodaethau diweddar, i ddod yn rhan o ofalaeth. Cytunwyd ein bod yn symud ymlaen i ymuno â Gofalaeth Glannau'r Saint - Llanrug, Bethel a Chaeathro. Bydd yr eglwys yn dod o dan weinidogaeth y Parch Marcus Wyn Robinson ar Orffennaf 1af 2012.

OEDFAON MEHEFIN

3am 2.00 Parch Eric Jones, Bangor Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Aglwydd 10 am 5.30 Mr J O Roberts, Bethesda

17 am 5.30 Mr Edward Morus Jones, Llandegfan

24 am 5.30 Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel

DIWRNOD RHYNGWLADOL DANNAWDD SEFYDLIAD YMERCHED

Mehefin 30ain 2012

Y Ganolfan, Llanberis

11yb hyd 4yp

Cost Mynediad £1.50 yn cynwys te neu goffi

Plant yn ddi-dâl

Gweithgareddau crefftau i blant ac oedolion

Cystadlaethau amrywiol

20 o arddangosfeydd rhyngwladol yn dehongli gwledydd y byd

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

**Gwesty
Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



PROFEDIGAETHAU.

Daeth profedigaeth i ran Mrs Mair Williams, Elidir View, Braich, drwy golli ei chwaer, Olwen, yn ddiweddar. Yna brawychwyd yr ardal pan gollodd Ceri Lyn, merch Raymond a Valerie Jones (gynt o'r Swyddfa Bost) ei bywyd mewn damwain modur. Yna daeth newyddion trist i Mrs Carol Evans, Dôl Afon, fod ei nith, Nia Wyn, merch y diweddar Haydn Pritchard, Llanberis, wedi ein gadael. Y ddwy ond yn eu tridegau cynnar. Hefyd daeth newydd trist i Mrs Margaret Williams, Bryn, drwy golli ei chwaer-yng-nghyfraith, Margaret, ym Mhenygroes. Chwe mis yn unig ar ôl colli ei phriod, Cwil. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd yn eich profedigaeth a'ch hiraeth.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Ebrill 14, bu farw Miss Megan Davies, gynt o 2 Craig-y-don, yn 92 mlwydd oed. Yn y blynyddoedd diwethaf, fel 'Megan Cwm' roedd pawb yn ei hadnabod ond i bobl Cwm, 'Megan Stesion' oedd hi, gan mai Megan oedd perchennog siop y 'stesion'. Wedi i'r siop gau aeth i weithio am flynyddoedd fel gwniadwraig i ffatri Greengate yn Llanberis. Bu ei hangladd ar 24 Ebrill yn Amlosgfa Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth.

E S I T E D D F O D G E N E D L A E T H O L Y R U R D D . Llongyfarchiadau i Lea, Ffion, Toby a Ben, disgyblion yr ysgol ar gael eu dewis i ddawnsio yn Seremoni'r Coroni. Pob dymuniad da i'r plant i gyd sydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod.

UNDEB Y MAMAU.

Cyfarfu'r gangen yn Eglwys Sant Mair Caernarfon bnawn Mawrth, 15 Mai. Croesawodd Auriel Howel bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth aelodau oedd yn absennol. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd mis Ebrill a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Atgoffwyd pawb am y gwasanaeth yn y Gadeirlan Bangor nos Wener, 15 Mehefin am 7.30 o'r gloch. Mae angen tocyn i fynd yno.

Bydd cyfarfod blynyddol Undeb y Mamau yn cael ei gynnal yn Venue Cymru Llandudno ar ddydd Sadwrn, 16 Mehefin i ddechrau am hanner awr wedi deg y bore. Trafodwyd materion oedd wedi cael eu codi yn y pwyllgor yng Nghricieth yn ddiweddar. Cafwyd amser wedyn i brynu oddi ar y stondin a gwnaed elw boddhaol. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Iris a Iola. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Margaret Latham.

Diolchodd Auriel i'r gwesteion ac i bawb am eu cyfraniad ar y stondin. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 19 Mehefin.

C Y M A N F A ' R A N N I B Y N W Y R C Y L C H D E I N I O L E N A C H W M Y G L O . Trefnir bws i fynd i'r Gwasanaeth Boreol, Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon fore Sul, Mehefin 3ydd fel a ganlyn:

Llanberis: 8.00 o flaen Spar Cwm y Glo: 8.10 wrth Gapel Tabernacl

Deiniolen: 8.20 o flaen yr Ysgol.

Ble fyddai Cymru heb Ferched y Wawr?

'Fe fydd llyfr newydd am hanes Merched y Wawr yn agoriad llygad,' meddai Meleri Wyn James, Golygydd y gyfrol. 'Er fy mod i'n aelod fy hun, a bod gen i gysylltiadau teuluol â'r mudiad ers blynyddoedd, doeddwn i ddim yn sylweddoli cymaint mae Merched y Wawr wedi'i gyfrannu at ein bywyd ni fel cenedl - a hynny yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol. Ac mae'n dal i wneud hynny heddiw.'

Mae'r gyfrol yn fwy na llyfr am hanes Merched y Wawr o gyfnod ei sefydlu yn 1967 hyd heddiw. Mae'n gyfres o erthyglau amrywiol gan aelodau blaenllaw a thrwy eu geiriau nhw adroddir hanesion difyr, dwys a doniol am gyfraniad un o'n prif fudiadau Cymraeg ei iaith. Mae'r cyfranwyr yn cynnwys Tegwen Morris, y Trefnydd Cenedlaethol, ac awduron megis Siân Lewis ac Annes Glynn. Gyda 280 o ganghennau a 7,000 o aelodau mae Merched y Wawr wedi cynnig cyfleoedd i fenywod gymdeithasu, arfer eu doniau, lobio, codi arian ac ymfalchïo yn y Gymraeg.

'Mae'r parch sydd gen i tuag at Ferched y Wawr yn aruthrol... Ble fyddai Cymru heddiw hebddyn nhw, dywedwch? Sawl cam ar ei hôl hi, does gen i ddim amheuaeth ynglŷn â hynny!' meddai Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, yn y llyfr. 'Ro'n i am ddangos bod llawer mwy i'r mudiad hwn na'r ddelwedd draddodiadol o wneud paned a phice bach,' meddai Meleri Wyn James. 'Mae Merched y Wawr wedi arwain y ffordd o ran ymgyrchu a chodi arian mewn meysydd yn ymwneud â'r iaith, ysgolion meithrin, dysgwyr, S4C a phrosiectau ar gyfer pobl dan anfantais ac er budd menywod yng nghefn gwlad Cymru a'r gwledydd llai datblygedig.'

Meddai Meri Huws, 'Nid egwyddorion sy'n bodoli mewn rhyw adroddiad neu ar safle gw'r mudiad yn unig sydd ganddynt, ond egwyddorion real sy'n cael eu gweithredu'n ddyddiol gan arweinwyr ac aelodau Merched y Wawr a'u chwaer-fudiad i fenywod ifanc, y Clybiau Gwawr.'

Heidiodd torf draw i Neuadd y Cyfnod, Y Bala, ddydd Sadwrn i ddatlu cyhoeddi Merched y Wawr fel rhan o ddigwyddiadau'r Fedwen Lyfrau. Wrth fwynhau paneidiau a chacennau a baratowyd yn arbennig gan aelodau o ganghennau rhanbarth Meirion y mudiad, fe gyfarchwyd pawb gan Mererid Jones, y Llywydd Cenedlaethol a chyfranwyr eraill. Cynhelir lansiad swyddogol y llyfr yn ystod Gŵyl Haf Genedlaethol y mudiad yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fai am 10.30 y bore. Bydd digwyddiad arall am 2 o'r gloch brynhawn dydd Mawrth y 29ain o Fai, a hynny yn Llyfrgell newydd y Dref, Aberystwyth - cyfle gwyh i gyfuno dathlu cyhoeddi'r gyfrol gydag agor y llyfrgell yn ei leoliad newydd. Croeso cynnes i bawb!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

- Priodasau ● Dathliadau
- Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
- Pwyllgorau ● Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 003

L.G. OWEN PENISARWAUN

GWAITH CERRIG-TIRLUNIO

Gwaith Walio • Gwynebu
Pointio • Gwaith Blocs • Patios
Dreifs • Llwybrau • Gwaith Grafel
Llechi • Ail Wneud Gerddi • Trin Coed
Concretio • Tarmacio • BlocPavio • Dreinio
Gwaith Clirio • Ffensio • Decio A.y.b
● Gwaith o safon, Prisiau Cystadleuol ●
Gwasanaeth Cyfeillgar - Gwbwl Yswiriedig

CYSYLLTWCH ► 01286 870318
NEU ► 07896739544
www.gwyneddstonemasonry.co.uk



YSGOL GYNRADD

Bu plant y Cyfnod Sylfaen i'r Galeri i weld y sioe 'Y Goedwig'. Bu'r coreograffydd yn yr Ysgol yn cynnal gweithdy dawns. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr. Hefyd bu'r plant Cyfnod Sylfaen ar drip gwaith maes yn Coed Doctor yn chwilio am drychfilod. Roedd yn fore diddorol iawn.

Bu'r dosbarth derbyn, Bl 1 a Bl 2 ar ymweliad â festri' Capel Coch. Bu Mr Pritchard yn ateb cwestiynau am y Capel a bedyddiodd ein doli Catrin Wyn.

Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn astudio'r thema 'Yn yr ardd' ac fel rhan o'r gwaith yn plannu blodau ac yn adeiladu gwesty pryfetach.

Cynhelir sesiynau ffitrwydd yn wythnosol i ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion wedi llwyddo i redeg pellter o 2 km erbyn hyn ac wedi cael eu gwobrwyo â thystysgrif.

Bu i ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol Dau astudio cyfnod yr Ail Ryfel Byd yn ddiweddar. Cawsant gyfleoedd i brofi Dogni Bwyd yn uniongyrchol wrth goginio bwydydd y byddai pobl wedi ei fwyta yn ystod y cyfnod.

Llwyddodd Blwyddyn 3 i goginio cacennau o bob math, Blwyddyn 4 wnaeth y bisgedi a bu i flwyddyn 5 bobi bara a gwneud menyn eu hunain. Drwy wneud hyn yr oedd y disgyblion yn gwerthfawrogi effaith dogni bwyd ar y math o fwydydd y gellid eu coginio yn ystod y Rhyfel.

Yr oedd rhai o'r disgyblion wedi eu gwisgo mewn gwisg hen ffasiwn ar gyfer ceisio ail-greu parti i ddathlu diwedd yr Ail Ryfel Byd a bu iddynt astudio a pherfformio rai o ganeuon y cyfnod yn ogystal â chreu caneuon eu hunain ar gyfer y dathliadau.

Ruby Wood, o Flwyddyn 3 sydd wedi llwyddo eto mewn cystadleuaeth ddringo yn ddiweddar. Mae hefyd wedi ei dewis ar gyfer tim dringo ieuenctid Cymru. Da iawn ti.

Diwedd mis Mawrth, cafodd blwyddyn 4 gyfle i fynd i weld sioe am gynilo arian o'r enw 'Spyd ar y Soffa' gan Mari Gwilym a Gwen Lasarus yn Llyfrgell Llanberis. Cafodd y plant hwyl yn gwylïo'r

sioe a dysgu mwy am bwysigrwydd cynilo arian poced.

Cymerodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ran mewn gweithdy drama ac ymwybyddiaeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn Neuadd Goffa Felinheli.

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn creu cyflwyniadau cyfrifiadurol am ardal o'r Amgueddfa Lechi, Llanberis. Mae'r gwaith yn ran o ddathliad pen blwydd yr amgueddfa yn bedwar deg mlwydd oed.

Bu plant ysgol Dolbadarn yn cyd-weithio gyda disgyblion Ysgol Brynrefail ar y prosiect gwyrdd. Bu disgyblion Brynrefail yn brysur yn cynllunio gyda phlant blwyddyn 5 sut y gallwn wella gardd ein hysgol. Yna cyd-weithiodd pawb i dacleso a phlannu blodau o amgylch yr ysgol.

Trip Bl5 i Rhyd Ddu

Dydd Iau, Ebrill 26ain aeth blwyddyn 5 ar drip i Rhyd Ddu. Cawsom amser gwych ar y trip. Dechreuodd y diwrnod pan aeth pawb i fewn i'r bws mini. Roedd pawb wedi cyffroi yn lan ar ôl cyrraedd. Aethom i weld ein hystafelloedd a chadw ein bagiau a'n sachau cysgu.

Cawsom chwarae gemau adeiladu tim i gychwyn a chafodd pawb hwyl yn ceisio datrys y problemau. Yn anffodus roedd y tywydd yn wael iawn. Roedd pawb yn wlyb domen erbyn amser cinio.

Yn y prynhawn aethom am dro i'r goedwig a heibio'r afon. Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r Ganolfan ar ôl y daith roedd pawb wedi blino'n lân ac yn barod am lond bol o fwyd. Cawsom spageti bolones a chacen siocled i bwddin. Roedd yn flasus iawn. Yna roedd hi bron yn amser gwely. Aethom i fyny i'r ystafelloedd, siarad am ychydig ac yna golau i ffwrdd i gysgu!

Yn y bore codais am 7 y bore. Roedd yn rhaid i ni baratoi ar gyfer y daith drwy wneud brechdanau a diod i ni'n hunain. Yna dechreuom gerdded o Rhyd Ddu, dros Bwlch Maelgwn i Llanberis. Pan welsom yr ysgol ar ddiwedd y daith roedd pawb wrth eu boddau. Cefais amser da ar y daith ond roeddwn wedi blino'n ofnadwy erbyn y nos.

Molly Ellis

DIOLCHIADAU. Dymuna Aylwyn a'r teulu ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Pat Williams, 5 Water Street. Hefyd i'r cymdogion am eu cymorth parod. Diolch am yr ymweliadau, y llu cardiau sydd wedi bod yn gysur iddynt a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Pat at Feddygfa Waunfawr a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, a fu'n gofalu am Pat yn ystod ei salwch. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth yn yr angladd ac i'r nifer fawr a ddaeth i ffarwelio â Pat yng Nghapel Coch. Diolch hefyd i Gwynfor, E.W. Pritchard am ei drefniadau gofalus a charedig ac i'r Padarn Lake am ddarparu'r lluniaeth.

DIOLCH. Mae Janet Vaughan, Yankee Street, yn diolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod ei hamser yn Ysbyty Walton, Lerpwl

CLWB PÊL-DROED LLANBERIS. Cofiwch fod yn bresennol yn agoriad swyddogol Neuadd Newydd y Clwb ar ddydd Sadwrn y 23ain o Fehefin. Mae'r manylion

llawn wedi eu cynnwys yn adran chwaraeon y rhifyn hwn!
MARWOLAETH. Wedi brwydr fer bu farw Nia, merch Gwyneth a'r diweddar Hadyn Pritchard, 58 Dôl Elidir, Llanberis, mam Chloe, chwaer Iestyn a Rhian, wyres Nellie a chariad Neil. Dymuna'r teulu ddiolch i garedigion Llanberis a'r ardal am yr ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a'r rhoddion hael er cof am Nia. Diolch i Ysbyty Gwynedd am eu gofal ac i'r Parchedig Carol Roberts, Derek Jones a Gwynfor, E.W. Pritchard, am eu gwasanaeth trylwyr.

DIOLCH. Dymuna John a Margaret Prydderch Roberts, Bronallt, Olgra Terrace a'r teulu, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt ar farwolaeth mam a nain arbennig, Mrs Olwen Roberts, Argoed, Stryd y Warden, Llanberis. Diolch yn gynnes am bob gofal caredig gan staff Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr. Diolch i'r Parch John Pritchard, Capel Coch, ac i'r ymgymwrwr, E.W. Pritchard am eu trefniadau gofalus. Rhoddion £150 tuag at Feddygfa Waunfawr.

C Y M A N F A ' R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Trefnir bws i fynd i'r Gwasanaeth Boreol, Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon fore Sul, Mehefin 3ydd fel a ganlyn: Llanberis: 8.00 o flaen Spar

Cwm y Glo: 8.10 wrth Capel Tabernacl
Deiniolen: 8.20 o flaen yr Ysgol.

Te Mefus
Mehefin 8fed yn Eglwys Sant Padarn,
Llanberis. 2-4 p.m.

CINIO DYDD SUL CYMUNEDOL
Mehefin 24ain yn y Ganolfan, Llanberis.
Tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor codi arian.
Oedolion £10; Plant £5
Am fwy o fanylion cysylltwch â Linda - 07775501416.
Elw tuag at Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

CAPEL COCH:

Yr Ysgol Sul: Mae plant hynaf yr Ysgol Sul wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y gwasanaeth ym Mhafiliwn Eisteddfod yr Urdd fore Sul, Mehefin 3. Byddant yn rhan o gôr mawr o blant ysgolion Sul y dalgylch.

Yn ystod mis Mai, croesawyd nifer o blant newydd i'r Ysgol Sul ac yr ydym yn falch iawn o'u gweld. Plant Eglwys Sant Padarn yw rhai ohonynt, wedi penderfynu ymuno â ni ar gyfer yr Ysgol Sul, ac mae'n braf iawn gweld y cydweithio hwn. Bydd y plant yn dal i fynychu'r gwasanaethau a drefnir ar eu cyfer yn Eglwys Sant Padarn wrth gwrs.

Oedfa Deulu: Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mehefin 24. Croeso cynnes i bawb.

Cefnogwch ein hysbysebwr

LLEISIAU LLANBABS - Trip bythgofiadwy 'Lleisiau Llanbabs' I'r Wyl Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon ar Ebrill 13-15, 2012.

Wel, lle da ni'n dechra?! Sut mae cyfiawnhau bwrlwm a mawredd y trip yma i blant bach Llanbabs (a phawb arall) mewn ychydig eiriau? Dyma ein hymngais...

Wedi misoedd o ymarfer a chasglu arian, cyrhaeddodd y diwrnod mawr. Y diwrnod pan deithiodd 77 o bentref Deiniolen i Carlow yn Iwerddon. Cychwynnodd 28 o blant y côr, rhieni, ffrindiau, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, o Lanbabs am tua 8 o'r gloch y bore ar ddwy fys gan Ieuan Williams. Roedd hwyliau da ar bawb wrth deithio am Gaergybi i ddal y llong drosodd i Dun Laoghaire. Roedd digon o goffi yn y fflasgiau a'r bocsys bwyd yn llawn!!

Roedd hi'n ddiwrnod braf a chlir wrth i ni nesau at Iwerddon, gyda phawb wedi cynhyrfu'n lân wrth feddwl am yr antur enfawr o'u blaena!! Roedd hi'n tua 2 o'r gloch y pnaun erbyn i ni gyrraedd Gwesty moethus y Dolmen. Wrth gwrs, gan fod Grand Piano yn nerbynfâ'r gwesty, doedd Anti Lyndsey ac Anti Eleri'n methu ei phasio heb gael ymarfer bach sydyn!! Felly, dyma 'Lleisiau Llanbabs' yn atseinio drwy'r gwesty a phawb wrth eu bodd!! Dyma'r arwydd cyntaf bod plantos bach Llanbabs am roi gwên ar wyneb amryw o bobl yn Iwerddon dros y penwythnos, ac yn wir, dyna a wnaethant!

Yn dilyn bwyd bendigedig, ar ôl dipyn o redeg o gwmpas ystafelloedd eu ffrindiau, bysus Carlow aeth â ni at fan cychwyn yr orymdaith. Plant Llanbabs



oedd yn arwain, gyda bandiau a dawnswyr o bob un o'r gwledydd Celtaidd yn lliwio strydoedd tref Carlow.

Diddanu yn Eglwys y Santes Fair oedd y dasg nesa i 'Lleisiau Llanbabs'. Rhannu llwyfan gyda phlant o ysgolion cynradd y dalgylch yn ogystal â chorau

o'r gwledydd Celtaidd. Newid cyfeiriad yn hollol wedyn, gan gerdded drosodd i Westy'r Seven Oaks, ble cynhaliwyd y Noson Lawen. Cymru oedd yn cynnal y noson honno ac, wrth gwrs, roedd y lle yn orlawn!!

Dawnswyr, corau, unawdwyr... ac unwaith eto, Lleisiau Llanbabs



hefyd yn rhoi mwynhad llwyr i'r dorf. Mi aeth hi'n noson hwyr iawn, ond roedd pawb wrth eu bodd! Anodd coelio ein bod ni'n sôn am y diwrnod cyntaf o hyd, ond mi roedd hwn yn drip a hanner, a deud y lleia!!

Dydd Sadwrn, Ebrill 14 - heddiw oedd y diwrnod mawr. Y diwrnod lle roedd Lleisiau Llanbabs yn cynrychioli Cymru mewn dwy gystadleuaeth yn yr ŵyl. Wedi codi i gael brecwast bendigedig, ffwrdd â ni yn y bysus i neuadd yr ysgol leol. Disgwyl yn eiddgar yn un o'r ystafelloedd yn y cefn cyn cael ein galw ymlaen i gystadlu...

Roedd y plantos werth eu gweld ac wedi perfformio'n arbennig o dda. Geiriau caredig iawn gan y beirniaid a gadarnhaodd bod Lleisiau Llanbabs wedi ennill yn y ddau gategori!! Dwy wobr gyntaf i blantos bach Deiniolen!! Gwych!! Yn wir, roedd digon o weiddi a dathlu!!

Gan fod y trefnwyr wedi cwirioni gymaint hefo'r plant, cawsant wahoddiad yn ôl i ganu yn y prynhawn i ddiddanu'r dorf. Yma daeth cyfle iddynt hefyd ganu hefo Côr Hŷn Glanaethwy. Wrth i bawb wneud eu ffordd yn ôl i'r gwesty ar gyfer noson arbennig o gymdeithasu a thrafod llwyddiant y côr a'r trip, roedd cynlluniau ar y gweill yn barod ar gyfer trip y flwyddyn nesaf!!

Ac mi fedra i eich sicrhau chi nad coffi oedd yn y fflasgiau y noson honno!!

Diolch i bawb am eich cefnogaeth ac am eich geiriau caredig o longyfarchiadau i gôr plant 'Lleisiau Llanbabs'.

YMWELIAD. Ymwelodd dros ddeugain o drigolion Bodffordd a'r cylch â'r ardal ar ddechrau mis Mai. Ellis Wyn Roberts, Bodffordd, oedd wedi trefnu'r daith a'r tywysydd oedd y Canon Idris Thomas, Glanrafon. Rhoddwyd iddynt fanylion llawn am hanes Deiniolen ddoe a heddiw ac ymwelwyd ag Eglwys Crist Llandinorwig. Bu'r Canon Idris Thomas yn annerch ym Modffordd y gaef diwethaf ar Pêl Goch ar y Dŵr, sef un o'i lyfrau sy'n ymwneud â thrasiedi fawr boddi deuddeg, naw plentyn a thri oedolyn, o Ysgol Sul Dinorwig yn 1899. Gwelsant yn Eglwys Crist

y gofeb farmor i gofio am yr anffodusion a chawsant hefyd hanes llawn yr eglwys a ymddangosodd yn Gwynfyd Gwaun Gynfi yn 2007. Diolchwyd yn yr eglwys gan gyn Archddiacon Meirionnydd, Emyr Wyn Rowlands, a hefyd gan Ellis Wyn Roberts. Diolchwyd i Eleanor Morris, Ffordd Deiniol, y Warden, am baratoi'r eglwys ac roedd pawb yn canmol glendid yr addoldy. Aeth y fintai wedyn ar fws Gwynfor i Allt Ddu Dinorwig a chael sgwrs am yr ardal. Roedd pawb o Fôn wedi mwynhau'r daith i wahanol leoedd ym Mro'r Eco.



Dydd Sul yr 8fed o Fai roedd band ieuenctid Deiniolen yn cymryd rhan yng Ngwyl Miri Mai yn Nant Gwrtheyrn o dan arweiniad Osian Tomos a Hefin Goronwy Jones. Braf oedd cael gwahoddiad eto i'r Nant ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Yn ddiweddar mae'r band ieuenctid yn falch o gael croesawu aelodau newydd i'r rhengoedd, gan gynyddu'r niferoedd yn agos i 30 o blant, felly mae'r dyfodol yn ddisglair iawn.

Ym Mehefin bydd y band ieuenctid yn cymryd rhan unwaith eto eleni yng nghyngerdd agoriadol Gwyl Deiniolen yn Eglwys Crist Llandinorwig.

Cefnogwch ein hysbysebwyrr

ECO'r Wyddfa 400

PENBLWYDD HAPUS I'R "ECO".

Dderbyniwyd yr un cerdyn, ond efallai fod y ffaith fod cwmni cardiau Clinton yn bygwth mynd i'r wal wedi atal ein darllenwyr rhag prynu!

Mae cyrraedd y cant yn haeddu sylw gan y frenhines. Gallai rhywun feddwl fod cyrraedd y pedwar cant yn haeddu mwy o sylw. Ddaeth dim byd o Balas Bycingham chwaith. Ond dyna fo, mae gan yr hen greadures ddigon ar ei phlât yn dathlu ei jiwibili ei hun ar hyn o bryd.

Pan sefydlwyd y papur yn Chwefror 1976, soniwyd amdano fel "babi newydd". Mae'r babi bellach yn tynnu am ganol oed, a'r criw fu'n weithgar yn ei fabandod yn neiniau a theidiau. Ac y mae nifer ohonynt yn parhau i fagu'r babi a gofalu fod ganddo wisg newydd bob mis. Yn y rhifyn cyntaf hwnnw (oedd yn costio 8 geiniog am 16 tudalen) roedd croesair a dyddiadur y mis – dwy nodwedd sydd wedi hen ddiflannu o'i dudalennau erbyn hyn.

Yn Chwefror 1985 dathlwyd canfed rhifyn y papur. Cododd y pris i ugain ceiniog. Pump yn unig o'r gweithwyr gwreiddiol oedd yn parhau

gyda'r gwaith. Roedd mwy o erthyglau yn ymddangos erbyn hyn, a chafwyd rhifyn arbennig o "Eco" dychmygol 1885.

Dathlwyd y dauganfed rhifyn yn Ebrill 1994, a'r pris bellach yn 25 ceiniog. Cafwyd parti yn Llanberis a rhwymwyd yr ôlrfynnau a chyflwyno'r cyfrolau i lyfrgelloedd Deiniolen, Llanberis ac Ysgol Brynrefail. Lluniwyd hefyd fynegai i'r dau gan rhifyn cyntaf. Roedd yr "Eco" yn digwydd dathlu ei benblwydd y deunaw oed yr un mis, a

chafwyd englyn arbennig iddo gan Ieuan Wyn, pan ddaeth "y plentyn yn llencyn llawn."

Unwaith eto cafwyd "Eco" dychmygol

o'r flwyddyn 1794.

Ym mis Mai 2003 y cafodd rhifyn 300 ei gyhoeddi. Cododd y pris i 40 ceiniog. Doedd fawr o ddathlu. Ond rhoddwyd sylw i ddathlu

canmlwyddiant geni T. Rowland Hughes. Tybed beth fyddai ei farn ef wedi bod am ein papur bro?

A dyma ni yn dathlu'r pedwar cant. Mae'r pris erbyn hyn yn 50 ceiniog am 24 tudalen, Ac yn dal yn rhatach na phris stamp dosbarth cyntaf. Dyna be ydi gwerth am arian! Mae'r "Eco" erbyn hyn ar ei newydd wedd, ac mewn lliw. Trueni na fyddai ein cronfa ariannol yn caniatáu cyhoeddi'r cyfan mewn lliw. Ond mae datblygiadau newydd ar y gweill, a'r gobaith o fewn y flwyddyn yw rhoi'r cyfan o'r ôlrfynnau ar y wê.

A'r un yw ein diolch i'r cannoedd o drigolion a chyn-drigolion y fro am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y blynnyddoedd. Yr un hefyd yw'r apêl am fwy o waed ifanc i helpu i ysgwyddo'r baich o gynnal babi sydd gryn dipyn trymach a mwy blinedig i'w gario i neiniau a theidiau.



Cynllun Band Eang Cyflym Di-wyfr i Llanrug

O'r diwedd mae siawns i ni'n Llanrug gael cysylltiad cyflym i'r we. Ar hyn o bryd mae cyflymdra cysylltiadau i'r we yn Llanrug yn druenus o isel. Yn wir mor isel fel ein bod yn disgyn oddi fewn cynllun grant y Cynulliad i'w wella.

Bu cynrychiolwyr o lywodraethwyr yr ysgol gynradd, busnesau a'r cyngor plwyf yn edrych i mewn i'r broblem gyda'r cwmni Exwavia.

Gall y cwmni hwn roi band eang cyflym i'r pentref o fewn ychydig wythnosau. Defnyddio signal radio fydd y cwmni a'r unig beth a welech ydy bocs bach di-nod ar dalcen y tŷ. Fydd yna ddim erial na disg derbyn i'w gweld yn unman.

Beth a gawn sydd yn wahanol?

- Band llydan am ddim am 12 mis
- Dim yn dibynnu ar wifrau copr araf BT
- Grant o £1000 gan y Cynulliad i'ch cysylltu – dim cost i'r defnyddiwr
- Bydd y gwasanaeth ddigon cyflym i ddangos fideos a rhaglenni iPlayer heb doriadau
- Cewch anfon lluniau a fideos dros y byd i gyd yn gyflym a di-ffwdan
- Gallwch lawrlwytho ac uwchlwytho'n gyflym a dim cyfyngiad (4MB y ddwy ffordd)
- Gall y plant gysylltu a'r ysgol yn ddi-drafferth a chyflym (Cofiwch fod yna gynllun gan yr ysgol gynradd i rieni brynu iPad drwy dalu'n fisol)

Y cam nesaf ydy eich gwahodd i gyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7pm ar nos lau 14eg Mehefin i gael mwy o fanylion a phecyn gwybodaeth.

Bydd y cytundebau yn rai 18 mis ac yn £20 y mis ar ôl y 12 mis am ddim. O gael digon o danysgrifwyr fe fydd y cynllun yn ceisio cysylltu pawb erbyn Medi'r 1af eleni.

Os am fwy o wybodaeth ewch i wefan y cwmni, sef

<http://www.exwavia.co.uk/cy/>

Sgrech



Mae pâr o adar swnllyd
o hyd yng nghoed y cefn,
rhaf swil, a hynod liwus –
ofalus iawn eu trefn.

C'neitherod ŷnt i'r biodan
a'r gigfran â'i chrawc gas
ond rhain sy'n fwy ysblenydd –
pinc – rudd a gwyn a glas.

Bu ocsiwn, casglwyr cefnog
yn Efrog newydd bell,
llun Edvard Munch am ddychryn
yn erbyn cefndir hell.

Pymtheg a thrigain miliwn,
ffortiwn am ddarlun mud!
gwnaeth rhywun y pnawn hwnnw
elw oedd 'Record Byd'!

Ond, rhywsut, wrth fyfyrion
am gyffro'r sêl a fu...
mae'n well gen i roi ymdrech
i weld sgrech cefn y tŷ!

Norman Closs

Dathlu Cyfraniad Cymry Tennessee

Mae cyfraniad y Cymry a helpodd godi Tennessee yn ôl ar ei thraed wedi Rhyfel Cartref America bron a bod yn angof yng nghof y genedl Americanaidd a Chymreig, ond mae llyfr newydd gan Dr Eirug Davies, The Welsh of Tennessee, yn bwriadu gwneud iawn am hynny. Mae yno draddodiad hir o Gymry sydd wedi mudo i'r Unol Daleithiau, yn enwedig felly o ganlyniad i ormes, megis y cyfnod pryd gwaharddwyd defnydd o'r Gymraeg wrth addoli. Yn y G19eg, roedd dylanwad y mewnfudwyr o Gymry a'u profiad yn y meysydd mwynloddio haearn a glo yn bennaf gyfrifol am ddychwelyd Tennessee i sefydlogrwydd economaidd wedi'r Rhyfel Cartref. Bu i'r cymunedau o Gymry gweithgar hefyd ganfod y rhyddid i ymarfer a chadw'r iaith Gymraeg, eu traddodiadau a'u diwylliant, gydag nifer yn ysgrifennu am eu profiadau newydd. Mae Dr

Eirug Davies wedi llwyddo i gyfieithu'r union gofnodion hyn sy'n cynnig cyfrif cyfoes o'r oes a fu o safbwynt glowyr, mwynwyr haearn, gweinidogion a ffermwyr oedd oll yn parchu addysg ac yn gwybod sut i ddathlu yn eu heisteddfodau. Mae'r llyfr yn olrhain hanes y Cymry hyn - nhw oedd prif gyflogwr Knoxville, oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Eisteddfod Dixie a bu iddynt hefyd chwarae rhan flaenllaw yn y gwrthryfel dros ddefnyddio troseddwyr yn y pyllau. Un o'r prif ffigyrau sy'n cael sylw yn y llyfr yw'r mwynwr Cymraeg David R Thomas, a ymddeolodd o Bwll Fraterville dri mis yn unig cyn y ffrwydrad enfawr, pryd lladdwyd pob mwynwr oedd yn bresennol. Roedd gan David R Thomas y rhagwelediad i gyflwyno ei gasgliad unigryw o lyfrau Cymraeg yn rhodd i Brifysgol Harvard, ac ysbrydolwyd Dr Eirug Davies i ysgrifennu'r llyfr o ganlyniad i

hyn. Rhai o ddarganfyddiadau eraill arbennig Dr Davies wrth wneud ei waith ymchwil oedd dod ar draws unigolyn a roddodd dystiolaeth bwysig ar gyfer y Llyfrau Gleision, a thraethawd gan un arall oedd yn bresennol yn y Ford Theatre pan lofruddiwyd Lincoln. Magwyd Dr Davies yn Llanon, Ceredigion ac wedi iddo gwblhau ei radd doethurol ym

Mhrifysgol Cymru symudodd i Boston ble treuliodd y rhan helaeth o'i yrfa broffesiynol yn Labordai Ymchwil mawreddog y Lluoedd Awyr. Datblygodd ddiddordeb yn y llenyddiaeth Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Unol Daleithiau ac erbyn heddiw mae'r awdur yn aelod cysylltiol o Adran Geltaidd Prifysgol Harvard.

CYSTADLEUAETH CODI WALIAU CERRIG

DYDD SUL
17^{ed} MEHEFIN 2012
HAFOD Y LLAN • NANT GWYNANT
Mewn Partneriaeth â Sul Fferm Agored a'r
Ymddiriedolaeth Genedlaethol

✱ **CYSYLLTWCH A NI I GYSTADLU** ✱
NEU DOWCH AM SPEC!!

Ffon 01286 685498
Info@snowdonia-society.org.uk www.cymdeithas-eryri.org.uk

HANES YR ECO

1976 - DAETH 4 DYN AT
EI GILYDD I DRAFOD LANSIO
PAPUR NEWYDD I'R FRO.
CYNHALIWDYD CYFARFOD
I DREFNU'R PAPUR MEWN
SEFYDLIAD PARCHUS,
GWARAIDD
A SOBOR

....PENBONT, LLANRUG!

TI 'DI BEST MÊT
FI, PAL ...

HIC!

OND BETH I ALW'R PAPUR?

STWNSH
SEION?

CLEGS
CWM?

NONSENS
Y NANT?

MALU
AWYR
MARCHLYN.

LOBSGOWS
LLANRUG?

... TAN I UN GAEL
YSBRYDOLIAETH YN
DILYN 'GHWISGI CHASER'...

..EGO'R WYDDFA...HIC!

AC FELLY Y BU...AC YN WREIDDIOL YN
YR HEN YSGOL YN NANT PERIS
GOSODWYD Y PAPUR ...

WYDDOST TI
FOD 'Y FODGADEW'
YN ANAGRAM
O 'EGO'R WYDDFA'?

DYDDIAU HYNFY...ROEDD RHAI GOSOD Y PAPUR
GYDA PHAST, SISWRN A SELOTÊP....


MAE SAWL EITEM WEDI DIFLANNU DROS Y
BLYNYDDOEDD...FEL ERTHYGL COGINIO 'O BANTRI BETH'

HIC!

Hic
COGINIO
GYDA
ALCOHOL

DAETH YR ERTHYGL I BEN YN DILYN EPIDEMIG 'E-COLI' LLANBERIS YN YR '90 AU

FFEFRYN ARALL OEDD ERTHYGL PYSGOTA HUW BETHEL....



MAE GWYNDAF WEDI BOD YN TYNNU'R LLUNIAU ERS Y CYCHWYN =



PWY ALL ANGHOFIO'R 'DRAENOG'. OND SUT ROEDD YN CAEL GAFAEL AR EI STRAEON?



DAETH NEWID MAWR PAN YMUNODD WAUNFAWR Â'R ECO... OND ROEDD Y TRAFODAETHAU YN ANODD A HIRWYNTOG...!



EISIOES MAE PAWB YN DARLLEN YR 'ECO'...



AR ÔL 400 O RHIFYNNAU DA YW GWELD BOD YR 'ECO' YN DDIOGEL MEWN DWYLO PROFFIESYNOL, BRWDFRYDIG, TALENTOG, BYWIOG A BRANDGAROL...



**I'W BARHAU YN RHIFYN 500 YR ECO (HYDREF 2021).
ARCHEBWCH EICH COPI NAWR!!!**

DELWEDDAU GARETH ROBERTS 01286 872462. DIOLCH I T.L. A S.L. YMDDIHEURIADAU I CURNOW VOSPER.



Eisteddfod yr Urdd

Mae'r camynol wedi dod i'r brig yn GENEDLAETHOL!!!
Ffion Erin Williams - BI 12 - 1af - Rhyddiaith dan 19 oed
Magi Tudur - BI 7 - 3ydd - Rhyddiaith BI 7
Magi Tudur - BI 7 - 1af - Creu Arteffact
Mae hyn yn dipyn o gamp - eleni roedd y nifer oedd
yn cystadlu yn uwch nag erioed. Pluen anhygoel yn
hetiau'r plant felly.
Genod Brynrefs - da 'de



Llongyfarchiadau Mr Arwyn Williams

Yr ydym i gyd, yn deulu Brynrefail, yn hynod o falch o lwyddiant Mr Arwyn Williams yn cwblhau Marathon Llundain ar ddydd Sul, 22ain Ebrill 2012. Gydag un pen-glin wedi ei anafu ar ôl 10 milltir fe frwydrodd ymlaen i gwblhau'r cwrs mewn ychydig dros 4 awr. Camp yn wir!



Llongyfarchiadau Elin

Yr ydym yn falch iawn o Elin Glyn Jones, sy'n hanu o Waunfawr, ar ei llwyddiant yn ei arholiad cerdd Gradd 5 yn ddiweddar. Mae Elin wedi pasio'n gampus. Mae Elin, sydd ym mlwyddyn 7, yn datblygu yn chwaraewr clarinét dawnus.

Y mae hi eisoes yn aelod o fand pres yr Ysgol, Band Hwn Caernarfon a hyd yn oed wedi dechrau fel unawdydd, sydd yn gamp yn wir.

Hogan Brynrefs - da 'de



Hawl i Holi

Fel rhan o gwrs Bagloriaeth Cymru cynhaliwyd sesiwn 'Hawl i Holi' ar ddydd Gwener, 4ydd Fai 2012. Estynnodd Gwen Thomas o flwyddyn 12, groeso cynnes i Dafydd Hardy, Geraint Hughes a Gari Wyn a chadeiriwyd y cyfan gan y Parchedig Townsend, Cadeirydd Corff Llywodraethol yr Ysgol. Cafwyd cwestiynu brwdfrydig ar gyflwr yr economi ac atebion deallus, dwys a digrif gan y tri entrepreneur.

Ar ddiwedd y drafodaeth cafwyd gair cynnes o ddiolch gan Catrin Owen, blwyddyn 12.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Ffeinal Cwpan Cymru Genod dan 13

Yn anffodus, colli fu hanes tîm y genethod dan 13 yn ffeinal Cwpan Cymru eleni, a hynny o 0-3 i Ysgol Dyffryn Port Talbot. Cyfartal fu'r chwarae yn ystod yr hanner cyntaf hyd at ychydig cyn hanner amser pan sgoriodd Port Talbot ddwy gôl sydyn.

Doedd dim amdani ond pwyso'n galed yn ystod yr ail hanner ac, er mai merched Brynrefail oedd y tîm gorau, ni fedrent rwydo ac yn wir ildwyd trydedd gôl.

Derbyniodd y capten, Llinos Jones gwpan yr ail orau ar ran y tîm

Genod Brynrefs-da 'de

Lleihau, Aildddefnyddio, Ailgylchu

Ailgylchu yw'r term am ail-dddefnyddio deunydd crai, pethau sy'n cael eu taflu i ffwrdd fel gwastraff. Caiff y deunydd ei ailbroseu er mwyn creu deunydd newydd er mwyn atal gwastraff deunydd defnyddiol, lleihau'r angen am ddeunydd crai newydd, lleihau defnydd egni, lleihau llygredd yn yr awyr a geir o losgi gwastraff, a lleihau llygredd dwr sy'n dod o domenni gwastraff. Mae hefyd yn lleihau'r gost o gymharu â ffurfiau 'confensiynol' o waredu â gwastraff, ac yn creu llai o allyriadau nwyon ty gwydr i gymharu â phrosesu deunydd crai newydd. Mae ailgylchu yn rhan allweddol o'r strategaeth gyfoes o reoli gwastraff. Ym Mrynrefail yr ydym yn ffodus i gael criw o hogiau sy'n cadw llygad barcud ar ein polisi ailgylchu ac yn gwneud eu gorau i'w wireddu.

Mae Gerallt Morris, Lewies Burns a Matthew Hughes yn rhan o griw sydd yn sicrhau ailgylchu ar bob cyfle ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith trwyadl a chyson.

Yn ogystal â'u gwaith y mae Banc Dillad Antur Waunfawr ar safle'r Ysgol yn derbyn dillad, tyweli, cynfasau, blancedi, llenni ac esgidiau.



Pencampwr Snwcer

Llongyfarchiadau calonnog i Ryan Jones, sy'n hanu o Lanrug, ac oedd yn cynrychioli Clwb Ieuencid Llanrug, wedi iddo ennill Cwpan Arfon yn ddiweddar.

Wedi brwydro trwy gemau rhagflaen gyda'i gyfoedion yn Llanrug fe lwyddodd Ryan i ennill chwe gêm ar ei ffordd i'r gêm derfynol a gynhaliwyd yng Nganolfan City Leisure, ym Mangor.

Ac ennill eto fu ei hanes yn y ffeinal, o ddwy ffrâm i un a chipio'r tlws godidog

Hogyn Brynrefs –da 'de



Diwrnod Crysau

Llofnodi

Dydd Gwener, 11eg Mai 2012, a diwrnod olaf blwyddyn 11 cyn ymadael ac yna dychwelyd i eistedd eu arholiadau T.G.A.U. Ac yn ôl y traddodiad roedd yn rhaid i Poppy Holland-Williams, Gwawr Jones, Emma Smith, Elliot Duggan-Edwards gael pawb pwysig i lofnodi eu henwau ar eu crys Ysgol cyn ymadael.

Ac yn wir i chi bu mwy o ysgrifennu ar y diwrnod olaf na fu ers talwm!

Ar nodyn mwy difrif yr ydym i gyd, yn deulu Brynrefail, yn dymuno pob hwyl i'n disgyblion ac yn mawr obeithio eu gweld yn ôl yn y chweched dosbarth wedi llwyddiant aruthrol.

GWERSI **ZUMBA** (dawns-ffitrwydd) Cynhelir dosbarthiadau bob nos Iau rhwng 8-9yh yn Ysgol Penisarwaen. Y gost yw£4. Croeso i chi ymuno unrhyw wythnos. Y mae'n noson o hwyl ac ymarfer ar gyfer pob oedran

YSGOL GYMUNED. Llwyddiant. Rydym fel ysgol yn ymfalchio yn y llwyddiant a gafodd y plant yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd Pritchard Jones Bangor ddydd Sadwrn, Mawrth 24, ble daeth y Parti Unsain yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd a dymunwn y gorau i bawb wrth gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri ym mis Mehefin.

Diwrnod Sport Relief. Bu'r ysgol gyfan yn brysur iawn ddydd Iau, Mawrth 22. Eu sialens oedd cwblhau 100 milltir trwy redeg o amgylch trac yr ysgol. Rydym yn hynod falch i ddweud eu bod wedi casglu £450 i'r achos teilwng yma sydd yn swm sylweddol iawn o gysidro maint yr ysgol. Diolchwn i bawb am fod mor garedig yn noddi'r plant. Ymweliad. Bore dydd Gwener, Mai 4, aeth Bl 3 - 6 i weld perfformiad o Horrible Histories, Y Tuduriaid ar lwyfan Venue Cymru yn **Llandudno**. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yma'n arw.

Cwrs Hwyllo. Cafodd Bl 5 a 6 gyfle i dreulio wythnos ar gwrs Hwyllo ym Mhlas Menai o ddydd Llun i dydd Gwener, Mai 14-18. Byddant yn derbyn tystysgrif ar ddiwedd y cwrs. Taith Gerdded. Trefnwyd dwy daith gerdded gan y Cyfeillion ar gyfer y disgyblion er mwyn codi arian i'r ysgol. Y daith gyntaf i blant Cyfnod

Sylfaen dydd Mercher, Mai 30, o amgylch y pentref. Taith gerdded CA2 o amgylch Llyn Padarn dydd Gwener, Mehefin 1. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i bawb a gyfrannodd trwy noddi'r plant.

C R O N F A ' R PENSIYNWYR. Enillydd pêl bonws mis Mawrth oedd Mrs Jean Fitch, Commercial Cottage gyda Rhif 19, ac enillydd mis Ebrill oedd Miss Bethan Pritchard, Ysgol Penisarwaun. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Sioned a Rhodri ar enedigaeth Nel Magi a llongyfarchiadau i William a Siân ar enedigaeth Ana Mai. Dwy wyres fach annwyl i nain a taid balch Penpwllcoch, sef Elen a Haydn. Dymuna Sioned a William, ei brawd, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion i'r ddwy fach. Pob bendith i chwi fel dau deulu balch.

PRIODAS. Pob bendith i Erin a Darren wedi eu priodas yn Eglwys Santes Helen a phob dymuniad da iddynt yn Siop Gron. Rydym mor falch o groesawu ein pobl ifanc yn ôl i'r pentref.

Mai 15fed bu priodas hyfryd yn Las Vegas. Yno unwyd Siân Penpwllcoch a Lee. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

L L W Y D D I A N T C E R D D O R O L . Llongyfarchiadau i ti, Twm Herd, ar dderbyn tystysgrif anrhydedd gyda'r Corn tenor. Mae Twm yn aelod o Fand Ifanc Deiniolen ac aelod o Fand Gwynedd.

Llongyfarchiadau i tithau, Magi Tudur, ar ennill tystysgrif teilyngdod Gradd 4 gyda'r Piano.

P E N - B L W Y D D I ARBENNIG. Pob dymuniad da i ti, Bethan, Meini Gleision, ar achlysur dy ben-blwydd yn un ar hugain a phob bendith i ti i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Bethan, Tai Newyddion ar achlysur ei phen-blwydd hithau yn 40. Pob dymuniad da i ti, Bethan. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Meirion, Gwynfi, ar gyrraedd 70 mlwydd oed. Pob dymuniad da i ti, Meirion, a gobeithio y cafodd pob un ohonoch hwyl ar ddathlu eich pen-blwyddi arbennig.

YSGOL SUL BOSRA. Bnawn Sul, Mai 20fed, yn Seilo Caernarfon, bu rhai o aelodau'r Ysgol Sul yn ymarfer dwy gân hyfryd ar y thema 'Cariad' ar gyfer Gwasanaeth Boreol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon ar Mehefin 3ydd. Bu'n brofiad braf gwrandao ar dros 100 o aelodau Ysgolion Sul yn canu o dan arweiniad Mererid Mair. Byddant yn ymarfer yn y Pafiliwn bnawn Iau, Mai 31.

Dalier Sylw
C Y M A N F A ' R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Trefnir bws i fynd i'r Gwasanaeth Boreol, Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon fore Sul, Mehefin 3ydd fel a ganlyn:

Llanberis: 8.00 o flaen Spar Cwm y Glo: 8.10 wrth Gapel Tabernacl

Deiniolen: 8.20 o flaen yr Ysgol Penisarwaun: 8.30 o flaen yr Ysgol.

Codir tâl am y bws ar oedolion - £3-£4 - yn dibynnu'n llwyr ar y nifer. Plant am ddim.

Fore Sul y Tadau edrychir ymlaen am gwmni Andrew Setattree.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, Mehefin 24 yng Nghapel Seiloh, Tregarth. Cymerir y rhan dechreuol ar y thema 'Grym y Fflan' gan aelodau Bosra. Bydd te bach i ddilyn y gwasanaeth. Hyderir y bydd pob aelod yn gallu bod yn bresennol.

YR EISTEDDFOD BENTREF a gynhelir nos Wener, Gorffennaf 6ed yn y Neuadd Gymuned.

Nos Fercher, Mai 16 - cynhaliwyd Noson Bingo lwyddiannus dros ben. Roeddy Neuadd yn llawn a mwynhawyd noson gymdeithasol braf. Diolchir i Jean am fod yn 'Alwr'

ffraeth ac i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd at y noson. Cafwyd cyfle i ddosbarthu testunau'r Eisteddfod ac i nodi nosweithiau'r ymarferion.

NOSON LAWEN. Cynhelir Noson Lawen gan 'Cwmni Da' yn Galeri Caernarfon nos Sadwrn, 7 Gorffennaf. Mae nifer o docynnau i'r noson ar gael gan Elizabeth Jones (ffôn: 872421) am £5. Bydd yr elw yn mynd at yr Eisteddfod Bentref. Trefnir bws, yn cychwyn am 6.00 yr hwyr o flaen yr Ysgol Gymuned. Croeso cynnes i bawb o'r pentref ynghyd â ffrindiau. Bydd John Eifion a Theulu Hendre Cenin yn cymryd rhan ar y noson.

DIOLCH. Dymuna Nannie Evans, 26 Bryntirion, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion, cardiau a blodau a dderbyniodd ar ei pen-blwydd yn 90 yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

GWELLHAD. Gobeithio fod pawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar yn gwella gan hyderu fod y tywydd braf bellach wedi cyrraedd i godi'r galon.

Anfonir ein cofion anwylaf at Mrs Eirlys Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn cryfhau, Eirlys, a dymunir adferiad iechyd buan i chi.

CYLCH TI A FI. Mae'r Cylch yn cyfarfod ar bnawn Iau rhwng 1.30 a 3.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Mae croeso i fabanod a phlant bach cyn oed ysgol, ynghyd â'r mamau, tadau a gwarchodwyr. Darperir paned, diod a bisgedi am £1. Bydd cyfle i gynnal gweithgareddau celf a chreffft a chyfle i gymdeithasu.

PWYLLGOR Y NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr oedd: 1. Nia Oliver, Gors; 2. Victor Jones, 11 Bryntirion.

Cynhelir Miri Mai nos Fercher, Mai 30 am 6.30 gyda stondinau, gemau, paentio wyneb, raffl a phaned, diod a bisged. Mynediad £1 i oedolion a 50c i blant. Bydd yr elw tuag at gostau rhedeg y Neuadd. Gobeithio y ceir yr un gefnogaeth a ddangoswyd i'r Noson Bingo.

CARNIFAL. Cynhelir wythnos o weithgareddau'r Carnifal yn nechrau Gorffennaf - cyn i'r ysgol gau am yr haf. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

ARYSGRIFAU CERRIG BEDDI.

Darllenais erthygl ddiddorol yn rhifyn Chwefror o'r "Local Historian" yn olrhain y newid a'r datblygiad mewn dulliau o gofnodi marwolaethau ar gerrig beddi, a sut yr oedd hynny yn dangos newidiadau cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol. Roedd yr awdur wedi seilio ei waith ar gasgliad o arysgrifau cerrig beddi mewn wyth o fynwentydd yng ngogledd Swydd Gaerhirfryn, a'r arysgrifau yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn gynnar yn hanes mynwentydd, dim ond nodi man claddu roedd y cerrig beddi. Yna, dechreuwyd rhoi arysgrif arnynt. Natur yr arysgrifau cynnar hyn oedd datgan ffydd yn yr atgyfodiad, a gobaith y rhai byw am ddyfodol y meirw. Yn raddol dros y blynyddoedd, newidiodd y patrwm, a defnyddiwyd yr arysgrifi ddatgan gwerth y meirw a'r golled o'u hól. Datblygodd rhai hyd yn oed i gofnodi neges gan y meirw i'r rhai oedd yn parhau yn y byd hwn – rhai o'r negeseuon hyn yn rhybuddion gan yr un oedd wedi ei gladdu ynglyn â buchedd y rhai oedd ar ôl.

Gan i mi gofnodi rhan o hen fynwent Llanrug, penderfynais edrych ar y math o arysgrifau oedd yn cael eu defnyddio, ac a oeddent yn dilyn y patrwm a awgrymwyd gan awdur yr erthygl uchod.

Mae'r arysgrifau cynnar yn aml yn defnyddio'r geiriau "Yma y gorwedd..." neu "Yma y claddwyd..." Un o'r rhai cynharaf yn Llanrug yw beddfaen John Williams a Jane Simon, a gladdwyd yn 1762 ac 1763. Y cyfan a gofnodir yw eu henwau, eu hoedran a dyddiad eu claddu, gyda'r geiriau "yma y claddwyd" a "dyma'r lle y claddwyd" yn unig. Nid oes cofnod hyd yn oed o berthynas rhwng y ddau. Hynny yw, nodi man claddu yn unig a wneir, yn hytrach na choffadwriaeth. Dyna'r patrwm cyffredinol ar y cerrig beddau sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Ar ddechrau'r ganrif ddilynol ceir yr ymadrodd "Yma y gorwedd gorff..." yn dod yn fwy amlwg. Ym meddrod teulu Erw Howel, ceir "Yma y gorwedd gorph Elinor Morgan..." a "Yma hefyd y mae'n gorwedd gorph Ann Roberts."

Tybir fod y geiriau sy'n cyfeirio at y corff yn adlewyrchu'r grêd o atgyfodiad corfforol, ond roedd dadleuon hefyd ynglyn â pha mor berthnasol oedd hynny i rai

a laddwyd mewn damwain (gan falurio'r corff), neu a foddwyd ar y môr (ac felly heb fedru eu claddu). Yn sgil hyn dechreuwyd defnyddio'r ymadrodd "Yma mae gweddillion..." . Gwelais hyn yn Llanrug, ond gyda'r geiriau yn Saesneg. "Underneath lie the remains of Richard Evans..." 1803 yw dyddiad y farwolaeth. Mae'r gymysgedd hon o arysgrif Cymraeg a Saesneg yn weddol gyffredin yn y cyfnod hwn. Ceir y geiriad yn aml yn uniaith Saesneg, yn cael ei ddilyn gan bennill neu englyn yn Gymraeg. Claddwyd Elizabeth Hughes, gwraig Thomas Thomas, porthmon yn 1750, ac ar ei charreg fedd, sy'n dangos fod gan y porthmon ddigon o arian i dalu am y fath gofnod, ceir y geiriau canlynol: "Underneath lieth in hope of a glorious resurrection, the body of ..." Ac yn dilyn, ceir un o'r rhybuddion cynnar mewn 'englyn':

"Edrych yn fynych ar f'annedd – i'r daith
Lle doi dithe i orwedd;
Meddwl di am dy ddiwedd
Myfi a euthum i fedd."

Fel yr â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, daw newidiadau i'r arysgrifau. Yn hytrach na chofnodi'r gladdedigaeith neu obeithio am atgyfodiad, mae'r geiriau bellach yn coffau'r ymadawedig. Yn aml iawn ceir "Er cof am..." neu "Coffadwriaeth am" Cyfeiriad moel yn unig a geir ar y rhai cynharaf, ond erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg daw mwy o wybodaeth am yr ymadawedig i'w osod ar y garreg fedd. Dyna sydd i'w gael ar fedd William a Margaret Williams o'r Ty Capel: "Buont mewn undeb a'r Trefnyddion Clafinaidd... ac yn ymgeleddwyr i weinidogion yr efengyl ...". Felly hefyd ar fedd Jeremiah Williams : "Yr hwn ni thybiai neb islaw iddo ond y trwch a'r traws, na neb uwchlaw iddo ond y doeth a'r rhinweddol." Mae'r arysgrif bellach yn cofnodi rhinweddau'r ymadawedig tra bu byw yn hytrach na datgan gobaith am fywyd gwell yn y byd a ddaw. Brasolwg yn unig a roddais yma: rhaid darllen yr erthygl yn ei chyfanrwydd i'w gwerthfawrogi. Rhaid hefyd edrych ar batrymau arysgrifau mewn llawer mwy nac un mynwent i weld a oes patrwm tebyg yn ein hardal ni. Mae'r awdur yn astudio'r math o addurniadau a dddefnyddir ar y cerrig beddau hefyd, a dyna faes arall diddorol, ond stori arall yw honno....

CHWILOTA

Mwy o enwogion y fro.
John William Walters, Cerddor.



Ganed yn yr India tra roedd ei dad yn gwasanaethu yn y fyddin, ond yn 1879, ac yntau'n saith oed, daeth y teulu i fyw i Lanberis, ble roedd ei dad yn gyfrifol am y Volunteer Rifles. Mynychodd ysgol Dolbadarn a dysgu Cymraeg yn rhugl. Yn 12 oed roedd yn chwythu corn ac yn taro'r drwm yn y Volunteers Fife and drum Band. Roedd yn aelod o gôr Eglwys Sant Padarn. Yn ddiweddarach ymunodd â Band Arian Vaynol dan hyfforddiant Mr Ayres. Roedd yn gystadleuydd brwd mewn eisteddfodau lleol, ac yn enillydd cyson. Ef fu'n chwarae'r Corn Gwlad yn Eisteddfod Llyn Geirionnydd, Llanrwst, a defnyddiai'r enw barddol Ioan Gwallter. Yn 1893 ymunodd â Heddlu Dinas Manceinion a bu'n chwaraewr cornet ym Mand yr Heddlu. Ymunodd ag Eglwys

Gymraeg Dewi Sant yn y ddinas a bu'n organydd yno am 33 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd ei apwyntio yn organydd a chôrfeistr Carchar Strangeways. Gyda chymorth y Parch Daniel Lloyd (cyn giwrat yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon), ffurfiodd gôr o garcharorion, yn ddynion a merched, a dysgwyd llawer iawn o emynau ac alawon Cymraeg iddynt. Parhaodd yn y swydd, am 22 mlynedd. Ymddeolodd yn 77 oed oherwydd fod dringo 44 o risiau i gyrraedd yr organ bedair gwaith ar y Suliau yn ei lethu. Os oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth am y cerddor hwn neu am y bandiau fife and drum yn Llanberis, cysylltwch.

Ysgol Ganol Llanrug.

Gyda diolch i Mrs E. Williams, Bryn Gro, Llanrug am y llun a'r wybodaeth. Fe'i derbyniwyd yn ystod y ddeufis diwethaf, a dylai fod wedi ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r "Eco", ond rhywsut, aeth y llun ar gyfeiliorn yng nghrombil cyfrifiaduron gweithwyr yr "Eco". Diolch i'r drefn, daeth i'r fei, a phleser yw cael ei gynnwys y mis hwn. Llauer o ddiolch i chwi am gael benthg y llun ac am y wybodaeth werthfawr.



Dyma lun o barti o blant Ysgol Ganol Llanrug yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn y 30'au cynnar a dod yn ail yn eu cystadleuaeth ym Mlaenau Ffestiniog.

Rhes ôl: Malan, Hefina, Megan, Blodwen, Hanna Dilys, Laura Penrhyn, Cassie Daniel.

Ail o'r cefn): Lily Aubrey, Glenys, Gwen, Lydia Mary, Eirwen Williams, Dorothy, Enid, Kate Olwen, Anna Lewis.

Rhes ganol: Betty Madryn, ? Arfon, Betty Gruffydd, Betty Arosfa, Yr Arweinydd, Mrs Jones, Rita, Maggi Lizzie, Jenny Catherine.

4ydd rhes: Milwyn, Gwerfyl, Betty Evans, ?, Megan Penrhos, Elfed.

Blaen: Cledwyn Cae Rhos, Elwyn Jones, Bertie, Henry Co-op, Wil Cae Glas.

Y mis nesaf...

Daeth ymateb a gwybodaeth i law fel yr oedd y papur ar fin mynd i'r Wasg. Edrychwn ymlaen y tro nesaf am hanes rownd lefrith gynnar yn Nhan y Coed, teulu o eglwyswyr yn Llanberis a hanes trip Ysgol Sul cynnar i'r Sw.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: 01286 673515.

P Ê L - D R O E D G E N E T H O D . Llongyfarchiadau i dair o genod y pentref, sef Anest, Catrin a Lois a fu'n aelodau gwerthfawr o dimau pêl-droed dan 14 ag 13 Ysgol Brynrefail yn rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru yn ddiweddar. Ni fu'r timau yn llwyddiannus eleni ond daliwch ati fe ddaw llwyddiant y flwyddyn nesa gobeithio.

EISTEDDFOD YR URDD 2012. Pob lwc i holl blant y pentrefa fydd yn cystadlu ac yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni yng Nglynllifon, ac i blant yr ysgol Sul fydd yn cymryd rhan yn Oedfa'r Eisteddfod ar y Sul cyntaf.

FESTRI EBENEZER DEINIOLEN.

Dymuna swyddogion ac aelodau Cefn y Waun ac Ebenezer ddiolch o galon i Mr Meirion Jones am drefnu'r cyngerdd Nos Iau y 17eg o Fai. Diolch hefyd i'r doniau lleol am wneud noson i'w chofio, sef Seindorf Arian Deiniolen, dan arweiniad Gavin Seynor a Lois Eifion, Osian Trefor, Lleisiau Llanbabs dan arweiniad Lyndsey Vaughan Fleming ac Eleri Bean, Sian ac Emyr Gibson, Annette Bryn Parri, Bedwyr Parri ac arweinydd y noson, Gwyn Parri. Gwnaeth y noson elw o £467 tuag at welliannau angenrheidiol i'r Festri.

Dymuniadau gorau i Osian Trefor a Lleisiau Llanbabs yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

C Y M D E I T H A S C Y F E I L L I O N EGLWYS CRIST

LLANDINORWIG. Trip i lawr i Ddinas Bangor gafodd aelodau'r Gymdeithas ddechrau mis Mai a hynny i ymweld â Chapel Berea Newydd ac Eglwys Dewi Sant, Glanadda.

Croesawyd ni yn gynnes iawn yng Nghapel Bera gan eu gweinidog, Y Parchedig Eric Jones, ac roedd pawb yn falch iawn o weld Mr Ralph Lewis iawn yn ein derbyn, gan ei fod, wrth gwrs, yn enedigol o'r ardal hon.

Roedd yn wledd cerdded i mewn i'r capel newydd yma - popeth yn fodern ynddo, o garpedi, seddau, cyfrifiaduron a llawer mwy, hyfryd dros ben, cael addoli yn gyfforddus braf. Ymlaen â ni wedyn i Eglwys Dewi Sant, Glanadda, lle roedd y Ficer, Y Barchedig Janet Fletcher, yn aros amdanom.

Roedd yn ddiddorol iawn cymharu dau adeilad, yr Eglwys wedi ei hadeiladu yn 1888 ac yn sefyll ar sylfaen gadarn er yr holl flynyddoedd, gyda'i gwaith coed hardd a'i ffenestri lliw unigryw a'r capel yn y flwyddyn 2002 gyda phob moethusrwydd, a'r ddau, wrth gwrs, wedi eu hadeiladu i'r un pwrpas, sef i addoli Duw. Cyn gadael am adref cawsom swper gwerth chweil wedi ei baratoi gan ferched yr Eglwys. Diolchwyd yn y ddau addoldy am y croeso arbennig ac roedd pawb wedi mwynhau yn noson yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Eirianwen ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da a'r anrhegion ar achlysur ei hymddeoliad diweddar.

CYDSNABYDDIAETH. Dymuna Olwen, Arwel, Collette a Rhys, Maldwyn House, Stryd Fawr, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd mawr y bu iddynt ei dderbyn yn ystod eu profedigaeth o golli y diweddar Colin Williams.

Diolch hefyd i feddygon Ysbyty Gwynedd.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor dan ofal Dr Carol Roberts, diolch iddi am ei gwasanaeth. Diolch hefyd i'r trefnwyr angladdau, Dylan Griffiths, Penisarwaun, am ei drefniadau gofalus a thrylwyr.

C Y M D E I T H A S LENYDDOL. Cynhaliwyd Cinio Pen-tymory Gymdeithas Undebol yn y Clwb Golf Caernarfon nos Lun, 23 Ebrill. Cafwyd bwyd ardderchog eleni eto. Does ryfedd ein bod yn dychwelyd yno bob blwyddyn erbyn hyn.

Y gwesteion oedd y Parchedig a Mrs Idris Thomas, Deiniolen. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Idris am ei fagwraeth yn Ninorwig, yn cynnwys peth o hanes ei deulu a rhai o'r cymeriadau a gofiai o'i blentyndod. Y cyfan yn creu darlun hynod o gymdogaeth Dinorwig mewn dyddiau a fu. Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mr Brian Price. Ar ran y Gymdeithas rhoddwyd tusw o flodau i Mrs Ann Thomas gan y Cynghorydd Len Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Osian Trefor, 1 Bron Helen, Clwt y Bont, ar ei lwyddiant ysgubol mewn gwahanol eisteddfodau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fe ddaeth i'r brig am ganu Unawd a Cherdd Dant yn

ogystal ac ar Adrodd. Ei lwyddiant diweddaraf oedd yn Eisteddfod fawr Teulu James Pantyfedwen a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid, Ceredigion. Fe lwyddodd Osian i gael y wobr gyntaf ar yr Unawd ac ail am yr Adrodd yn ei oed, sef blwyddyn dau ac iau, yn ogystal â chael y drydedd wobr ar Gerdd Dant dan ddeuddeg oed. Tipyn o gamp yn wir! Pob hwyl i ti, Osian, yn y dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Elfed Wyn Williams ddiolch i bobl ardal Deiniolen, Dinorwig, Clwt y Bont a Fachwen am ei ethol fel Cynghorydd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch am yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r anrhegion. Diolch i ferched y Cymorth Cartref am eu caredigrwydd hwythau hefyd.

DYMUNA Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau, blodau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

DIOLCH. Dymuna Emma, Daniel, Jessica a Mrs Nansi Morris a'r theulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli eu tad, Stephen Lovell a ddaeth mor fuan ar ôl colli eu mam. Gwerthfawrogwn wasanaeth y Parchedig John Pritchard a'r organydd, Dr W. Munro, a threfniadau trylwyr yr ymgymwrwr, Mr Gwynfor Williams o E.W. Pritchard.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfod tra gwahanol a gafwyd

yng nghyfarfod mis Mai pan ymwelodd yr aelodau â Palace Print yng Nghaernarfon. Cafwyd noson hynod ddifyr yng nghwmni dwy awdures, sef Mared Lewis a Siân Northey - y ddwy yn holi'r naill a'r llall sut yr oeddent yn mynd ati i ysgrifennu a meddwl am y gwahanol gymeriadau yn eu llyfrau ac yn y blaen. Cafwyd cyfle wedyn i rai o'r aelodau ofyn cwestiwn i'r ddwy. I ddiweddu cafwyd paned a theisen flasus iawn. Diolchwyd i'r ddwy awdures ac i Palace Print gan Ann Lloyd.

Mae'n anodd credu fod tymor arall yn dirwyn i ben ac yn y cyfarfod olaf edrychir ymlaen at ymweliad Miss Gemma Jones o siop Elaine, Llanrug. Cofiwch, aelodau, mai ar nos Lun, 11 Mehefin y bydd y cyfarfod hwnnw ac nis nos Lun cyntaf y mis.

Etholwyd swyddogion newydd am y tymor nesaf a braf oedd gweld fod pawb yn fodlon cario ymlaen yn eu swyddi, ar wahân mai am y ddwy flynedd nesaf y Llywydd fydd Mrs Brenda Williams, a'r is-Lywydd fydd Ann Lloyd.

C Y M A N F A ' R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Trefnir bws i fynd i'r Gwasanaeth Boreol, Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon fore Sul, Mehefin 3ydd fel a ganlyn:

Llanberis: 8.00 o flaen Spar
Cwm y Glo: 8.10 wrth Gapel Tabernacl
Deiniolen: 8.20 o flaen yr Ysgol.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda theulu'r diweddar Colin Williams, Madryn House, Stryd Fawr, Deiniolen.



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILs
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Parhad DEINIOLLEN...eto!

GWYL DEINIOLLEN A'R CYLCH 2012.

Dyma drefniadau'r ŵyl ar gyfer eleni:

Nos Wener Mehefin 15fed

Noson gyda Gwibdaith Hen Frân a Dewi Rhys, Clwb Cymdeithasol Llanberis

Dydd Sadwrn Mehefin 16eg

Sioe Clwb Cyw, 3.00 - 4.00, Ysgol Feithrin Deiniolen
Gweithdy Beatbocsio a rapio gyda Ed Holden, 3.00 - 6.00 Tŷ Elidir

Nos Sul, Mehefin 17eg

Cyngerdd coroni'r frenhines, 6.00, Eglwys Llandinorwig yng nghwmni Côr Dyffryn Peris ag artistiaid lleol eraill
Cwis - 9.00 Y Bwl

Nos Lun Mehefin 18fed

Disgo i'r plant, 6.00 Ysgol Feithrin Deiniolen

Nos Fawrth Mehefin 19eg

Helfa drysor ar droed, cychwyn 6.00 o Gwt Band Deiniolen gyda BBQ i ddilyn

Pnawn Mercher Mehefin 20fed

Digwyddiad arbennig newydd - Te prynhawn yng nghwmni Mici Plwm, 1.30 - 3.00 Tŷ Elidir

Nos Fercher Mehefin 20fed

Mabolgampau 6.00 Cae Bwthyn

Nos Iau Mehefin 21ain

Cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr - 6.00 Cae Bwthyn

Nos Wener Mehefin 22ain

Cystadleuaeth snwcer 6.00, Clwb Snwcer Deiniolen

Cystadleuaeth darts 9.00, Y Bwl

Dydd Sadwrn Mehefin 23ain

Diwrnod yr ŵyl gyda'r gorymdaith i gychwyn o Rhydfadog am 1.00 gan deithio trwy stryd fawr y pentref i Cae Bwthyn.

DEWCH YN LLU I GEFNOGI'R HOLL

WEITHGAREDDAU TRWY'R WYTHNOS

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Dauhen

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk



DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

GWAELEDD. Drwg iawn oedd gennym fel ardal ddeall fod Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, wedi bod yn bur wael yn ystod y mis, ond da yw deall ei bod rhyw ychydig yn well eto. Gobeithio y bydd iddi ddal i wella ac na fydd y plant yn teimlo mor boenus. Cofion gorau atoch, Mrs Thomas.

CYMORTH CRISTNOGOL. Mawr ddiolch i'r rhai a gyfrannodd mor hael tuag at yr uchod eto eleni. Er y dirwasgiad mae pawb yn barod iawn i gyfrannu at yr achos yma. Diolch yn fawr iawn am y cyfraniadau.

ARHOLIADAU. Mae yn anodd credu fod tymor yr arholiadau wedi cyrraedd unwaith eto. Mae blwyddyn wedi mynd yn sydyn iawn. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb sydd yn eistedd yr arholiadau, a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd, ac y cewch fynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i wneud. Pob lwc ichwi i gyd.

NANT PERIS

Dymuna Meirion Pritchard, Ty Isaf, ddiolch i'r teulu a'i ffrindiau am y llw cardiau, galwadau ffôn, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd arbennig yn ddiweddar. Cafodd yr arian a dderbyniodd ei gyflwyno i Gwynedd Breast cancer care, Ysbyty Gwynedd.

(Ymddiheuriad am na chafodd y newyddion eu cynnwys yn y rhifyn diwethaf - Gol.)

GLANHAWR SIMNE
TRWSIO CORN • GOSOD CAWL
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES
Y DIWEDDAR
GWYNFRYN LLOYD

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Delfnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



Cyflwyno Siec i Ward Alaw.

Cyflwynwyd siec am £6,000 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd gan Sharon Griffith er cof am ei chymar, Ian Williams. Aeth tri o gyfeillion pennaf Ian, sef Llion Iwan, Dylan Halliday a Neil Garton Jones ar daith noddedig gyda beics i Gaerdydd, a dringo i gopaon yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan ar y ffordd. Dymuna Sharon ddiolch i'w chyd-weithwyr, ei theulu, cyfeillion a chwsmeriaid am y gefnogaeth a dderbyniodd.

Y SEFYDLIAD COFFA.

Clwb Cant - enillwyr mis Ebrill oedd: 1. Wavell Roberts; 2. Mrs M. Griffith, 2 Hafan Elan; 3. Efa Roberts, Glanfa.

PLAID CYMRU. Clwb Cant - enillwyr mis Mai oedd 1. Ifanwy Jones, Brynrefail; 2. Hefin Jones, Pant Mwyn.

CAPELYRHOS. Oherwydd salwch, methodd y Parch Robert Capon wasanaethu fore Sul, Mai 13. Paratowyd gwasanaeth pwrpasol ar gyfer wythnos Cymorth Cristnogol gan nifer o'r aelodau. Dangoswyd ffilm o'r gwaith arbennig a gwerthfawr a wneir yn Sierra Leone yn Affrica. Diolch i bawb a gymerodd ran. Fore Sul, Mai 20fed, gyda'r gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Elain Dafydd, ail ferch fach Judith ac Andrew Beech, Seibiant, Ffordd yr Orsaf. Croesawyd nifer o'r teulu i'r gwasanaeth, rhai ohonynt wedi dod yr holl ffordd o'r Eidal. Pob bendith a dymuniad da i'r teulu ac i Catrin, ei chwaer fawr chwech oed, wrth ofalu am Elain.

OEDFAON MIS MEHEFIN.

3: Y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson
10: Y Parch Eifion W. Williams
17: Y Gweinidog
24: Mrs Mair Penri

DIOLCHIADAU.

Dymuna teulu y ddiweddar

Elizabeth Lloyd Roberts (Bet Lyndale) ddatgan eu diolch am y geiriau o garedigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli un mor annwyl iddynt.

Diolch arbennig i Feddygon a staff meddygfa Liverpool House, Waunfawr, am eu gofal cyson, diflino a charedig ohoni dros y 40 mlynedd diwethaf, ac yn arbennig yn yr wythnosau diwethaf pryd oedd yn glaf yng Nghartref Cerrig yr Afon.

Hefyd fe ddymuna Islwyn, Eryl, Leri a Iolo a theulu y ddiweddar Ellen Roberts, 3 Bryn Moelyn, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl iddynt. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag at Gylchoedd Meithrin. Diolch i staff Cartref y Foelas am eu caredigrwydd a'u gofal tyner, hefyd y Parch Marcus Wyn Robinson am ei arweiniad gofalus ac i Dylan a Meinir Griffiths, Ymgymrwyr, am eu trefniadau trylwyr a theimladwy.

Dymuna Lillian Roberts, Dwryd, Glanffynnon, ddiolch yn fawr i'w ffrindiau, cymdogion a theulu am yr holl gardiau, blodau, anrhegion a chyfarhigion a gafodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Hefyd i'w theulu am y dathliad a drefnwyd ym Mhlas Maenan.

Yn dilyn marwolaeth eu mam, Edna Owen, Rhosgadfan (8 Glanmoelyn gynt) fe ddymuna Karen, Alwyn a'r plant ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad.

DIOLCH arbennig i bawb am gefnogaeth hael iawn unwaith eto gan Malcolm Pitts. Bu iddo ef a'i ffrind, Darren Brame, feicio o Gaer i Fangor, sydd yn 71 a hanner a filltiroedd, ar Ebrill 19. Wedyn nofio milltir a hanner 5 gwaith!!

Mae'r elw yn mynd er cof am Yvonne, gwraig Malcolm, i Ward Alaw, ysbyty Gwynedd ac i'r Ganolfan Newrole, Ysbyty Walton, Lerpwl. 30 mlynedd yn ôl cafodd Malcolm ei hun ddamwain erchyll ac yn dilyn hynny, gofal ardderchog gan Ysbyty Walton.

Rhaid eich llongyfarch, Malcolm, am yr holl ymdrechion yma, flwyddyn ar ôl blwyddyn, wedi codi tocyn o arian at yr achosion da hyn.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn arw â Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Edna Owen, Rhosgadfan. Cofiw'n hefyd at ei brawd Bryn, Katie a Nance ei chwiorydd, Karen ac Alwyn a'r teulu oll.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr i Ffion Haf Pritchard, 40 Bro Rhyddallt, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Dymuna Mam, Dad, Alaw a Sioned dy longyfarch gyda chariad a swsus mawr i mam gan Anest a chariad mawr gan Nain Mildred hefyd.

BAND LLANRUG.

Enillydd Clwb Cant am Ebrill oedd Gwenllian Baum (Rhif 52). I ymuno â'r Clwb Cant,

cysylltwch â Mike Thomas 07909678784.

BABIS NEWYDD.

Newyddion newydd ein cyrraedd fod John a Mary Walsh yn daid a nain i efeilliaid, dwy eneth fach. Llongyfarchiadau a phob bendith i chi fel teulu.

i Natalie Elisha, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, ar gael ei phenodi yn bennaeth Hanes yn Ysgol Alun yr Wyddgrug. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

DIOLCH. Dymuna Eirianwen ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da a'r anrhegion ar achlysur ei hymddeoliad diweddar.



LLONGYFARCHIADAU

mawr i Elain Ala Morgan, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, am lwyddo unwaith eto mewn cystadleuaeth marchogaeth yn yr Wyddgrug. Cafodd Elain gyntaf ar gefn Chester. Mi fydd Elain yn mynd ymlaen i'r genedlaethol yn Hartpur, Gloucester ym mis Gorffennaf. Disgybl yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo yw Elain. Pob lwc iddi.

ARVONIA

COACH TOURISM V cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271

YSGOL GYNRADD

1. Llongyfarchiadau i Kieran Forrest ar ddod yn bencampwr Cymru mewn cystadleuaeth ddringo. Bydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf fel cynrychiolydd Cymru ym mis Mehefin a dymunwn y gorau iddo.
2. Llongyfarchiadau hefyd i Elain Elis [Bl 5], Ella [Bl 5], Efa [Bl 5] a Sophie [Bl.6] ar ddod yn gyntaf fel rhan o dîm Dawnsio Disgo yng nghystadleuaeth yr Urdd. Pob hwyl i'r genod yng Nglynllifon.
3. Cafwyd diwrnod o Addysg Gorfforol yn yr ysgol, i ddynodi'r can diwrnod hyd nes y bydd y Gemau Olympaidd yn dechrau. Diolch i Teleri a Kieran Bl.6 am arolygu'r diwrnod fel Llysgenhaddon y Gemau yn yr ysgol.
4. Bu genod y Parti Unsain yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Eglwys Llanberis. Cafwyd cyngerdd hyfryd a gwledd wedyn!
5. Bu timau y genethod a'r bechgyn yn cymryd rhan mewn cystadlaethau pêl-droed yr Urdd, a gwneud eu gorau. Diolch i Mr Wyn Griffith a Miss Catrin Jones am hyfforddi.
6. Aeth Blwyddyn 1 a 2 am dro i Rosgadfan i'r 'patsh' at Russell Jones. Roeddent wedi cael prynhawn da, ac yn llawn o gynghorion ar gyfer datblygu gardd yr ysgol.

7. Cafodd Blwyddyn 6 a rhai plant o Flwyddyn 5 fynd i gymryd rhan mewn wythnos o weithgareddau amrywiol ar y dŵr ym Mhlas Menai. Roeddent wir wedi mwynhau'r profiadau ac yn llongwyr profiadol erbyn diwedd yr wythnos !
8. Llongyfarchiadau i Miriam, Blwyddyn 6 ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth ysgrifennu Rhyddiaith Bl.5/6 yn Eisteddfod yr Urdd; i Leisa, Blwyddyn 5 ar ddod yn drydydd yn yr un gystadleuaeth, ac i Mali, Blwyddyn 4 ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth Rhyddiaith ar gyfer Blwyddyn 3 a 4. Efallai y gwelwn ni'r genod yn ennill y goron neu'r gadair rhyw ddiwrnod.!
9. Llongyfarchiadau i Osian Land, Blwyddyn 4 ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth Graffeg Cyfrifiadurol, ac i Mared a Mali, Blwyddyn 2 ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth celf yn Eisteddfod yr Urdd eleni. .Edrychwn ymlaen i weld eu gwaith yn yr Arddangosfa Gelf a Chrefft yng Nglynllifon.

MERCHED YWAWR

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen nos Fawrth, Mai 8fed. Croesawyd nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Bethanne Williams. Cychwynnwyd gyda Chân y Mudiad. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn ag Eryl yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith ac anfonwyd ein cofion at Margaret Parry.

Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2012-11. Bu'r dasg o ethol Swyddogion yn rhwydd iawn. Y Llywydd ym Medi fydd Mair Huws, yr Is-lywydd fydd Nan Humphreys. Carys Wynne yn Ysgrifennydd ac Olwen a Linda ar y cyd fel Is-ysgrifenyddion. Y Trysorydd fydd Heulwen Evans a Mary Roberts yn Is-drysorydd. Etholwyd Meirwen Lloyd, Gwenda a Bethanne ar y pwyllgor newydd.

Llongyfarchwyd Carwyn Machno, mab Meirwen ar ei ddyweddïad â Siân Morgan. Bydd Sefydliad y Galon Caernarfon a'r Cylch yn trefnu casgliad o dŷ i dŷ rhwng Mehefin 10 a 23ain. Erfynnir am wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith. Os oes diddordeb gan unrhyw un cysyllter â Linda ar 673838 os gwelwch yn dda.

Ymhen ychydig wythnosau bydd ardal Bro Morgannwg yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i hen faes awyr

Llandŵ ger y Bontfaen a Llanilltud Fawr o Awst 4-11. Eleni mae cynigion arbennig ar docynnau. Gellir prynu tocynnau Maes dyddiol am bris gostyngol ar y wefan – www.eisteddfod.org.uk neu trwy ffonio'r llinell docynnau 0845 4090 800 tan Gorffennaf 1af. Gellir prynu tocyn tridiau am bris deuddydd. Prynwch docynnau Maes am unrhyw ddau ddiwrnod a gallwch gael tocynnau ar gyfer diwrnod arall o'ch dewis yn rhad ac am ddim – tan Gorffennaf 1af.

Dymunwyd yn dda i blant y Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Deallir fod Llinos Davies wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty a dymunir adferiad iechyd buan iddi.

Cafwyd Ffair Ffeirio i orffen ein noson a gwnaed elw sylweddol at yr Anabl. Diolchir i Menna, Avril a Margaret Christian am y baned ac enillydd y raffl oedd Jean.

Mehefin 12fed. Byddwn yn ymweld â Gwinllan Pant Du Penygroes, yna pryd o fwyd yn y Meifod. Bydd Bws Derfel, Rhiwlas, ym Mhenisarwaun am 5.50, yna Penbont, Nant y Glyn a Sgwâr Llanrug. Cynhelir Pwyllgor i drefnu rhaglen 2012-13 yn Disgwylfa, cartref Bethanne ar 19 Mehefin am 7 o'r gloch.

GWEITHGAREDDAU GWYL CARNIFAL LLANRUG

Nos Fercher 13/6/12 6.30pm
NOSON CHWARAEON
CAE PÊL DROED
LLANRUG
NOSON O HWYL I'R
TEULU I GYD

Y CARNIFAL
Ysgol Gynradd Llanrug
SADWRN 16/6/12
Ymgynnull 1.00 pm
CAE NANT Y GLYN
Gorymdaith yn cychwyn
1.30pm
Stondinau a Gemau
Dewch i gefnogi

Os yw eich mudiad yn dymuno cael stondin ar ddiwrnod y carnifal cysylltwch â Ruth ar 07787734797 cyn 9/6/12



PRIODAS

Meleri Mair Griffith, Llanrug, ac Aled Owen Humphreys, Caernarfon, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar ym Mron Eifion, Cricieth.

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol

Richard S. Humphreys

ECO'r Wyddfa

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg o Ebrill 2012 fe wnaed y penderfyniadau canlynol:

* Byddai'r Cadeirydd yn ymateb i'r cais gan Ysgol Brynrefail i gynrychiolydd o'r Cyngor fynd draw i siarad gyda'r disgyblion ynglŷn â phroblem ysbwriel o gwmpas y pentref.

* Peidio gosod llechi ger giât Maes Chwarae Pwll Moelyn gan na theimlir fod y broblem yn ddigon drwg ar hyn o bryd.

* Ysgrifennu at Mr Huw Williams, Glyn Afon i diolch iddo am wneud blwch dal poteli dŵr yn y fynwent.

* Derbyn cynnig Mr Wyn Lewis,

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned

Llanrug

y contractiwr torri gwair, i chwistrellu llwybrau'r fynwent eleni gyda hylif arbennig a fyddai'n lladd y mwsog heb niweidio wyneb y llwybrau ac ail edrych ar y sefyllfa y flwyddyn nesaf.

* Sefydlu is-bwyllgor i benderfynu ar safleoedd a'r dulliau o arddangos baneri'r Urdd dros gyfnod yr Eisteddfod. Roedd yr Ysgolion Cynradd a rhai o'r busnesau lleol yn fodlon eu gosod a gobeithir eu rhoi ar rai o'r tai hefyd.

* Cyfarfod trigolion 50, 51 a 52 Nant y Glyn i drafod eu cais i osod ffens ar y wal sydd yn gwahanu eu heiddo hwy a cae chwarae Nant y Glyn.

* Trefnu bod Swyddog Cynllunio yn mynd i archwilio safle Dragon Motors, Cwm y Glo gan fod y graig yn cael ei thynnu i lawr a bod plant yn chwarae ar y safle nad oedd wedi'i gau i ffwrdd yn ddigonol ar ddiwedd diwrnod gwaith.

* Cael gair gyda pherchennog y ffordd sydd yn arwain at y fynwent ynglŷn â'r drain sy'n tyfu yn wyllt ar wal.

* Gofyn i Mr Meic Davies fynychu cyfarfod safle yng nghae chwarae Glanmoelyn i glywed ei farn am oblygiadau gwneud gwaith i glirio'r dŵr sydd yn hel ar wyneb y tir.

* Pasio cwynion am yfed gan blant o dan oed ar lwybr Parc Isaf, y llwybr sydd yn cysylltu Tal y Bont a Bro Rhyddallt, ymlaen i'r Heddlu gan ychwanegu'r safleoedd canlynol hefyd fel safleoedd ble mae yfed o dan oed yn digwydd: Tir Ysgol Brynrefail ger Lôn Groes, Boncan Ysgol Brynrefail a

cae chwarae Nant y Glyn.

* Cysylltu a thîm Cymunedol Cyngor Gwynedd ynglŷn â thacluso Tal y Bont a phen uchaf yr afon ger stad Glanffynnon.

* Nad oedd gwrthwynebiad i'r cais i greu man ymarfer i geffylau yn Bryn Llan, Llanrug.

* Derbyn y cyfrifon terfynol am 2011-12 ar ôl ystyried pob eitem a'i cymeradwyo.

* Ysgrifennu at adran yr Amgylchedd gyda chopi i'r perchennog ynglŷn â'r gwaith adeiladu sy'n digwydd ym mharc gwyliau Brynteg ar hyn o bryd gan bod yr adeladau yn llawer mwy amlwg o'r pentref. Dywedwyd hefyd bod y tir wedi ei godi ger y llwybr cyhoeddus a oedd yn peri i'r defaid neidio dros y wal.

* Nodwyd fod Goronwy Hughes wedi penderfynu peidio ail sefyll wedi blynyddoedd o wasanaeth fel Cynghorydd. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth.

ECO'r Wyddfa

Crynodeb o gofnodion y 15ed o Fai.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard LL Jones. Croesawodd Hefin Williams y ddau aelod newydd, sef Rhian Evans a Siôn Jones, gan ddymuno'n dda iddynt fel Cynghorwyr ar Gyngor sy'n ymwneud â llawer o weithgareddau er budd yr ardal ond sydd hefyd yn Gyngor hawdd, cyfeillgar a pharchus.

Dymunodd yn dda hefyd, ar ran y Cyngor, i Elfed Williams a Siôn Jones fel aelodau newydd o Gyngor Sir Gwynedd. Cafwyd yr un dymuniad iddo yntau hefyd fel Cynghorydd Sir gan Richard LL Jones.

Penodwyd Geraint Hughes yn Gadeirydd.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch am eu gwasanaeth ac i ddymuno'n dda i'r aelodau sydd wedi gadael y Cyngor sef: Len Jones, Huw P. Hughes, Elspeth Mitcheson, Pat Jones a Merfyn Morris Map llwybrau/hanes. Cyflwynwyd prisiau a baratowyd gan Gareth Roberts:

1. ail-argraffu'r map gwreiddiol.

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

2. newid ambell stori a chynnwys deunydd newydd.

3. gwneud map o'r newydd.

Penderfynwyd anfon y prisiau i Mr Dafydd Einion Jones a gofyn faint o gymorth y gellid ei gael ar gyfer opsiwn 1. ac opsiwn 2.

Materion o'r cofnodion.

Derbyniwyd ateb Y Comisiwn Ffiniau y byddant yn ystyried sylwadau'r Cyngor (Perthi) yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Cafwyd ateb Mr Steffan Jones, Gwynedd, y bydd yn cysylltu ag ysgol Penisa'rwaun ynglŷn â baw cwn.

Ateb Cyngor Gwynedd nad oes gwrthwynebiad i blannu cennin Pedr wrth ochr y ffyrdd. Penderfynwyd bod yr aelodau yn paratoi rhestr o leoliadau erbyn cyfarfod Mehefin wedyn cysylltu â Mr Moi Parry, Cyngor Gwynedd.

Cyfeiriodd Elfed Williams at gais y Cyngor am finiau baw cwn yn Neiniolen a Chlwt y Bont – llythyr eto i Wynedd.

Cysgodfanau bws. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at rai newydd wedi eu gosod ym mhentrefi eraill – atgoffa Gwynedd o gais blaenorol y Cyngor. Blwch postio Tan Gaer. Dywedodd

Phyllis Ellis nad yw'r blwch wedi ei ail-osod er i Swyddog y Post Brenhinol ei addo yn ystod y gwanwyn – llythyr i Llandegai.

Cyfeiriodd Hefin Williams at y cais i glirio gwteri drwy Rhiwlas – llythyr eto i Wynedd

Gohebiaethau a materion eraill.

Cysgodfa bws, Bro Elidir, Dinorwig – llythyr Sara Wood yw dweud bod graffiti anwedus arno – cwyn i Wynedd.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Llys y Gwynt - lleoli tyrbein gwynt 20M o uchder. Hysbyswyd Gwynedd (yn ystod y cyfnod ymateb) o deimladau'r cymdogion bod 20M yn rhy uchel o lawer.

Cae Rhos, Bethel – estyniad deulawr i'r cefn.

3, Bryn Hyfryd, Bethel – estyniad yn y cefn.

Marchlyn Wood, Deiniolen – gwneud dau fynedfa i wasanaethu'r goedlan fasnachol (cais ôl-weithredol).

13, Y Ddôl, Bethel – estyniad

deulawr yn yr ochr a'r cefn.

Cyfeiriodd Hefin Williams at y gwerthwyr burgers ger Rhydau – gofyn i Wynedd a yw hyn yn gyfreithiol.

Llwybrau.


Dywedodd Aled Green bod angen arwyddion 'Dim baw cwn' ar hyd llwybr 93, Rhos Wian – llythyr i Wynedd.

Llwybr 128 Tŷ Newydd, Fachwen – llythyr Sara Wood yw deud bod eithin wedi cau'r llwybr. Roedd Gwynedd wedi ei glirio cyn y cyfarfod.

Llwybr 41, Garnedd at yr Eglwys, Deiniolen. Derbyniwyd cwyn ei fod mewn cyflwr drwg ac yn amhosibl ei gerdded yn ddiogel – llythyr i Wynedd.

Gwaith a gwblhawyd gan Wynedd – llwybr 141, Fachwen, wedi ei glirio a'i wella yn raenus iawn. Llwybr 54/49 – pont bren newydd wedi ei hadeiladu.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12ed o Fehefin.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG = 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk



www.ffmpegia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mw.

ECO'r Wyddfa

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116 Hysbysiad o Gyfethol RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned Waunfawr yn bwriadu Cyfethol pump aelod (3 Waunfawr, 2 Caeathro) i lenwi'r lle(oedd) gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd/ Cynghorwyr yng Nghymuned (Ward) Waunfawr yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau sydd i'w cynnal ar 3 Mai 2012.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn

O'r Cynghorau Cyngor Tref/Cymuned Waunfawr

berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu

- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu

- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned ar/yn Ty Awelog, Waunfawr, LL55 4AZ erbyn 15 Mehefin, 2012.

Dyddiedig y 21 diwrnod hwn o Fai 2012

1. Mae'r haipobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

Un funud fach ...

HIROES

A hithau'n dymor criced, dyma gwestiwn amserol i chi: 'Beth sy'n gyffredin i Brian Lara ac Eco'r Wyddfa?' Ym mis Ebrill 2004, sgoriodd Lara 400 o rediadau 'heb fod allan' yn erbyn Lloegr, a hyd heddiw dyna'r mwyaf a sgoriodd yr un batiwr erioed mewn gêm brawf. A chyda'r rhifyn hwn, gall yr Eco hefyd ddweud iddo gyrraedd y '400 heb fod allan'. Felly, llongyfarchiadau a diolch i bawb sy'n gweithio'n galed mewn gwahanol ffyrdd i ofalu bod ein papur bro'n dal i ffynnu.

Dywedodd Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth San Steffan y dydd o'r blaen y bydd pob ysgol yn Lloegr yn derbyn rhodd eleni i ddathlu rhywbeth arall sy'n '400 heb fod allan'. Cyhoeddwyd y King James Bible yn 1611. Hwn oedd y trydydd cyfieithiad Saesneg o'r Beibl, a thros bedair canrif gyfan mae wedi parhau'n gyfieithiad safonol a phoblogaidd er bod sawl cyfieithiad Saesneg arall wedi ei gyhoeddi ers hynny. Caiff holl ysgolion Lloegr gopi arbennig o'r Beibl hwn.

A diolch am hynny, gallwn ninnau ddweud mai '400 heb fod allan' yw hanes y Beibl Cymraeg hefyd. Ers cyhoeddi Beibl William Morgan yn 1588, bu'r Beibl yn ddylanwad rhyfeddol ar fywyd ein cenedl. Soniwyd llawer am ei ddylanwad ar ein hiaith a'n diwylliant; ond eilbeth fu hynny wrth reswm i'r budd ysbrydol a gafodd miloedd o bobl ohono a thrwyddo. Cafwyd y Beibl Cymraeg Newydd yn 1988, ac yn fwy diweddar daeth gwefan beibl.net â geiriau'r Beibl atom mewn Cymraeg syml, hawdd ei ddeall. A thrwy'r cyfan, mae Gair Duw'n dal i lefaru wrthym yn ein hiaith ein hunain.

Erbyn hyn, mae modd darllen y tri chyfieithiad Cymraeg ar un wefan. Yr American Bible Society sy'n gyfrifol am y wefan hon (<http://cy.bibles.org>) ac mae'n werth cael golwg arni os oes gennych gyfrifiadur. Trwy'r cyfryngau newydd, mae'r Beibl Cymraeg yn dal i lefaru. Gellir darllen cyfieithiad beibl.net ar ffônau symudol ac ar declynnau fel i-pod ac i-pad. Ac, wrth gwrs, i'r rhai y mae'n well ganddynt o hyd lyfr traddodiadol, mae digonedd o gopiau o'r Beibl hen a newydd i'w mwynhau.

Hir oes i'r Eco, ac ymlaen ag ef am y 500! A hir oes hefyd i'r Beibl yn ein hiaith. Trwy drugaredd Duw, bydd y Gymraeg fyw a bydd yn ein gwlad a'n bro bobl yn dal i ddarllen y Beibl yn Gymraeg am genedlaethau i ddod.

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch ein hysbysebwr



SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU

Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

OLEW • NWY NATURIOL • LPG

Tel. (01286) 872328 • Mobile- 07798 746718

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfyngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

YSGOL WAUNFAWR

Trip Lerpwl Bl 5 a 6. Aeth blwyddyn 5 a 6 i ymweld â'r Amgueddfa Forwrol yn Lerpwl ddydd Gwener Ebrill yr 20fed gan eu bod wedi astudio hanes trychineb y Titanic yn ystod y tymor diwethaf. Cafwyd diwrnod plerusus a chafodd y plant gymryd rhan mewn dau weithdy addysgol.

Amgueddfa Llanberis Blwyddyn 3 a 4

Fel rhan o ddathliad pen-blwydd yr Amgueddfa yn ddeugain oed eleni mae rhai o blant blwyddyn 4 wedi bod yn gweithio ar brosiectau technolegol i greu gwefan newydd i'r safle. Byddwch yn gallu cael mynediad i'r safwe yn y dyfodol agos.

Arolwg Dŵr. Yn ddiweddar cynhaliodd y disgyblion arolwg dŵr dan arweiniad Clare Jones o Dŵr Cymru er mwyn ceisio amlygu'r angen i leihau defnydd gwastraffus o ddŵr.

Ailgylchu dillad. Mae'r ysgol wedi derbyn bin i ailgylchu dillad gan Antur Waunfawr. Cofiwch ddod â'ch hen ddillad draw - mae'r ysgol yn derbyn arian am bob tunnell a gesglir!

Cyn Ddisgyblion. Mae dwy o'n cyn ddisgyblion, sef Elin Griffith ac Anya Price, wedi bod yn cynnal clwb dawnio yn wythnosol i ddisgyblion yr Adran Iau. Mae y gwaith gwirfoddol yma yn cyfrannu tuag at eu cwrs BACC - Bagloriaeth Cwrs Lefel A Ysgol Brynrefail. Yr un modd mae Shona Morris wedi gwirfoddoli i gynorthwyo ym mlwyddyn 1 a 2 bob bore ddydd Mercher. Diolch i chwi eich tair.

Clwb Kick it. Cynhelir y gwersi pêl-droed am gyfnod o bum wythnos ar ôl ysgol bob nos Lun. Cost y gwersi yw £10.00.

Cystadleuaeth Gêm Mathemateg 24. Llongyfarchiadau mawr i'r 4 disgybl o flwyddyn 6, sef Cai Morgan, Mabon Pritchard, Keiran Owen a Cara McGee, a fu'n cynrychioli'r ysgol yng Nghystadleuaeth Gêm Mathemateg 24 Ysgolion Gwynedd yr wythnos hon. Roedd deuddeg o ysgolion yn cystadlu a daethant yn ail. Daeth Cai hefyd yn ail fel unigolyn a bydd Cai, Mabon a Keiran yn cystadlu mis nesaf yng Nghystadleuaeth Derfynol Gêm Mathemateg 24 Gogledd Cymru yn Llanellwyl. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r ysgol gyrraedd rowndiau terfynol Gogledd Cymru. Dymunwn yn dda i'r tri.

Dymuniadau Gorau. Dymunwn wellhad buan i Sylvia Thompson sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda hefyd i Nia Morris Jones sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Croesawn Miss Elin Hughes fel cymhorthydd dros dro. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.



Pres am Res
Rhaid o blant pentref Waunfawr sydd wedi bod yn helpu casglu 5 ceiniogau ar gyfer ymgyrch Pres am Res i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd Eryri"



Clwb Garddio. Diolch i'r rhieni hynny sy'n cynorthwyo yn yr ardd bob dydd Mercher. Rydym yn edrych ymlaen i flasu'r llysiau yn ystod y tymor.

Dydd Sul, 29 Ebrill, yn Eglwys y Waun, Waunfawr, derbyniwyd tri o ieuenctid yr eglwys yn gyflawn aelodau o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd yr oedfa dan ofal y Gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards, a chymerwyd rhan gan Mrs Pat Parry, ysgrifennydd yr eglwys a Mr. Alun Owen Ellis oedd yn cynrychioli'r ysgol Sul.



(O'r chwith i'r dde), Mr Alun Owen Ellis, y Parchedig Gwenda Richards, Siôn Tudur Evans, Elgan Rhys Jones, Mared Rhys Jones a Mrs Pat Parry.

Diolch am y gefnogaeth a gefais yn etholiadau Cyngor Sir Gwynedd ar Fai y trydydd. Gwnafffyngorau i wasanaethu'r ardal mor effeithiol a phosib dros y pum mlynedd nesaf.

Yn gywir iawn, EURIG WYN (Plaid Cymru)

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill oedd: £30: Mr Martin Williams, Tŷ Hen; £20: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £10: Mrs Olwen Owen, 2 Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU. Cerddorol. Da iawn ti, Siôn Ifan, Bryn Melyn, ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 1 gyda theilyngdod. Dechra da, dal ati.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Cain Thomas, Tan-y-Foel a Dafydd Griffith, Trefeddyg, y ddau wedi cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

Bu Helen Mai, Teras Eilian, yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch i'r dyfodol.

Ar y dydd cyntaf o fis Mehefin, bydd Miss Katie Roberts (Anti Katie Siop) yn dathlu ei phen-blwydd yn gant ac un. Anfonwn ein cofion cynnes ati

i gartref preswyl Cerrig yr Afon yn y Felinheli.

Hefyd bydd Mrs Lowri Dunn yn dathlu cyrraedd ei 91 mlwydd oed yn ystod y mis. Llongyfarchiadau i chi eich dwy. Mwynhewch eich diwrnod a phen-blwydd hapus i chi.

BABANOD NEWYDD. Llongyfarchiadau i Manon a Robin, Stad Ael y Bryn, ar enedigaeth merch fach, Elain, chwaer fach i Owain, Esyllt, Cian, Siôn a Caleb, wyres fach i Carys.

Mab bach, Ifan, a anwyd i Meinir ac Euryr, Trem y Foel. Llongyfarchiadau ichi a chroeso i'r un bach.

Daeth Tecwyn ac Alison Evans, Tremallt, yn daid a nain i Webster, merch fach a anwyd i'w merch, Zoe a'i chymar, Neil. Mae Webster yn or-wyres i Mrs Mary Evans, Stad Tref Eilian (gynt) ond sydd bellach wedi ymgartrefu yng nghartref preswyl Y Foelas yn Llanrug. Dymunwn bob hapusrwydd ichi yno.

Ganwyd Greta Mai, ail wyres i Cadi a John Gwynedd, Nant. Merch fach i Meilir a Lynnsey a chwaer a ffrind i Efa Non. Llongyfarchiadau mawr ichi.

APÊL SGANIWR BABI

Byddaf yn cynnal noson Ocsiwn yn Bryn Eiron, Tafarn Waunfawr, am 7 o'r gloch nos Wener, 29 Mehefin i godi arian tuag at Gwynedd SANDS, sydd angen £40,000 i brynu Sganiwr babi newydd i'r Ward Mamolaeth, Ysbyty Gwynedd.

Os gwelwch yn dda dowch yn llw ar y noson i'n cefnogi. Os ydych yn awyddus i gyfrannu tuag at yr apêl, plis cysylltwch â Karen, 3 Bron Waun, Waunfawr.

Ffôn: 01286 650633

Dolch yn fawr am eich cefnogaeth

RACE FOR LIFE. Fore Sul, Mai 20, bu rhai o ferched y pentref yn cymryd rhan yn y 'Race For Life'. Un ohonynt oedd Gwenno, Syrjyri Liverpool House, yn rhedeg er cof am ei chwaer, Elizabeth.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU. Yn ystod gwasanaeth arbennig, dan ofal y Gweinidog, Y Parch Gwenda Richards, yn Eglwys y Waun, derbyniwyd Elgan Rhys a Mared Rhys, Eryri Wen, a Siôn Tudur, Rhoslyn, yn gyflawn aelodau o'r eglwys.

BRYSIWCH WELLA. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cymerwyd rhai o drigolion y pentref i'r ysbyty. Anfonwn ein cofion cyntes at Mrs Laura Pierce sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Croesawn Mrs Mandy Williams, 5 Ael y Bryn; Mrs Angela Parry, 7 Bryn Golau; Mrs Wendy Jones, Dôl Erddi; Mrs Jane Roberts, Glasfryn, Bro Waun; Mrs Janet Smith, Rhoslan; Mr Rob Jones, Tan-y-Fron, a Dylan, 9 Bryn Golau, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan ichi i gyd.

Anfonwn ein cofion at Mrs Sarah Lewis, Tref Eilian, sydd wedi mynd i aros dros dro i wella

a chryfhau i Blas Pengwaith, Llanberis. Brysiwch adra, Anti Serah.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Lorna a theulu Rhos Celyn yn eu profedigaeth drist o golli tad a thaid annwyl iawn iddynt.

CARIO'R FFLAM OLYMPAIDD. Llongyfarchiadau i Anna Williams, Ty'n Ceunant, ar gael ei dewis i gario'r fflam drwy dref Caernarfon, dydd Llun, Mai 28. Rwy'n siŵr y bydd nifer fawr o'r ardal yno i'w chefnogi.

ETHOLIAD CYNGOR GWYNEDD. Canlyniad etholiad Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ddechrau'r mis oedd mai Eurig Wyn, Y Fenni, fydd yn ein cynrychioli ar y cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dymunwn ddiolch i Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd, am ei waith yn ein cynrychioli dros y blynyddoedd a fu. Dymunwn seibiant haeddiannol i chi a Mrs Williams.

Dymunwn yn dda hefyd i Siôn Wyn, Arosfa gynt, sydd wedi ei ethol i gynrychioli ardal Bethel. Pob hwyl i ti gyda'r

dyletswyddau.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Mae Pwyllgor ardal Waunfawr yn hynod falch o gyhoeddi ein bod wedi cyrraedd, a phasio ein targed ac wedi casglu dros £6,500. Casglwyd dros £1,200 o 5 ceiniogau a chafodd John Gwynedd hwyl fawr yn bancio'r cyfan - roedd y ciw yn HSBC yn ymestyn allan ar y Maes! Hoffem ddiolch o galon i bawb ym mhentref Waunfawr sydd wedi cefnogi a chyfrannu. Diolch yn fawr.

Mae pentref Waunfawr yn

lliwgar iawn gyda'r baneri gwyrdd, coch a gwyn yn addurno'r stryd a rhai cartrefi. Diolch i'r rhai fu'n rhoi eu hamser i'w gosod. Diolch hefyd i ddisgyblion yr ysgol fu'n brysur yn dylunio a lliwio posteri deniadol yn cyhoeddi a gwahodd pawb i'r Eisteddfod yng Nglynllifon.

Dymunwn yn dda i'r ieuencid o'r pentref a'r ardal fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod, ac hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'r nos. Bydd yn brofiad y cofiwch amdano am byth.

GWASANAETHAY EGLWYS Y WAUN

yn ystod mis Mehefin.

- 3: Oedfa Pafiliwn Eisteddfod yr Urdd, Glynllifon
- 10: Gweinidog - Y Parch Gwenda Richards
- 17: Mr D. Charles Thomas
- 24: Gweinidog



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Gyda

3

Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr
dros 21 oed!



PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd!

Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk



PEUGEOT

Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk

Y ffgyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO₂ (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 - 34.9 (3.6 - 8.1), Extra Urban 88.2 - 62.8 (3.2 - 4.5), Combined 83.0 - 48.7 (3.4 - 5.8) a CO₂ 87 - 135

Ffilm ddogfen ar The Keep




Yn ystod mis Ebrill eleni bu'r criw bach yma'n crwydro'r ardal yn ffilmio ar gyfer ffilm ddogfen ar gefndir a hanes y ffilm 'The Keep'. Bu Gareth Foulkes yn eu tywys o amgylch yr ardal ac fe ffilmiwyd cyfweiliad a sawl un o'r gweithwyr lleol am eu profiadau yn gwneud y ffilm.

Stewart Buck a Stephane Piter yw'r cynhyrchwyr. Dywedodd Stewart - "Hoffem ddiolch yn arbennig i Gareth Foulkes am ei tywys o amgylch yr ardal, i John Ellis Roberts am ei broffesiynoldeb ac am ein llusgo'n ôl at y chwarel lle dechreuodd y cyfan. Hefyd ein diolch i Gareth Jones, Gwyndaf Hughes, Glenn Evans yn y Royal Oak, Aneuryn Jones o'r Dolbadarn ac i'r holl Cymuned Gymreig a helpodd

ni i gyd edrych eto ar y cyfnod anhygoel hwnnw yn 1982." Dyma eiriau o ddiolch Stephane. "Cefais groeso cynnes iawn a phob cydweithrediad gan drigolion yr ardal, er i mi fel Ffrancwr gael gryn drafferth ac ambell acen! Roeddwn yn hapus iawn o weld chwarel Glynrhonwy unwaith eto a gweld y bont sy'n y ffilm yn dal i sefyll yn y twll. Mae amser a natur wedi ei dadfeilio a thrist oedd gweld yr hen ffrind yn y cyflwr hwnnw. Trist hefyd oedd gweld cymaint o sbwriel wedi ei daflu i'r chwarel - piti fod rhai a diffyg parch i'w hamgylchedd. Fe'm magwyd ym mynyddoedd Col de Vence yn Ffrainc ac felly mae Llanberis a'r ardal fel ail gartref i mi. Diolch i chi Gymry! Diolch i Gareth, John, Sean, Michael, Glenn, Gwyndaf ac unrhyw rai anghofiais. Hwyl!"

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwyrr



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

RHEDEG MYNYDD.

Moel Eilio.

Daeth pedwar ugain o redwyr i Lanberis i gystadlu ar y glasur hon ganol Mai, a bachgen lleol aeth â hi, a hynny drwy chwalu gweddill y cystadleuwyr. Roedd Alun Vaughan, sydd bellach yn byw yn y Felinheli, ymhell ar y blaen hyd yn oed yn dringo i lechweddau isaf Moel Eilio, a rhedodd y cyfan o'r ras ar ei ben ei hun, gan orffen bron i chwe munud ar y blaen i'r ail. Roedd ei amser rhyw ddau funud yn arafach na'r record am y cwrs, ond gallai'n hawdd fod wedi ei thorri petai ganddo gystadleuydd arall yn ei wthio. Mae'n rhyfeddol meddwl y gall rhywun redeg copaon Moel Eilio, y Foel Gron, y Foel Goch a Moel Cynghorion mewn awr! Yr ail redwr lleol oedd Dyfed Thomas (Llanrug).



Cyfes Rasys Nos Fawrth Joe Brown.

Gyda bron i 200 o redwyr wedi cymryd rhan ym mhump ras gyntaf y gyfres, mae ail hanner y gystadleuaeth yn argoeli'n hynod gyffrous, gyda chystadlu brwd ym mhob adran oedran. Ar hyn o bryd, mae Mathew Roberts o Lanberis yn arwain y gyfres, Paul Jenkinson (Waunfawr) yn arwain y dynion dros 40

oed, Arwel Lewis (Bethel) yn ail dros 50 oed, Chris Forrest (Ceunant) yn drydydd dros 50 oed, Dafydd Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 60 oed, Sarah Ridgway (Nant Peris) yn arwain y merched, Ali Thomas (Llanberis) yn arwain y merched dros 40 oed, a Maggie Oliver (Dinorwig) yn gyntaf dros 60 oed. Dyna gynrychiolaeth arbennig o dda o'r fro mewn cystadleuaeth sy'n denu rhedwyr o bob cwr o ogledd Cymru.

Ond gall y cyfan newid yn ystod yr ail hanner, a bydd Ras y Gogarth eisoes wedi ei chynnal cyn i chwi ddarllen y llith hwn. Ac o gofio mai pedwar amser cyflymaf pob rhedwr allan o'r deg ras sy'n cyfrif, mae posibilrwydd y bydd y cystadlu yn poethi dros ail hanner y gyfres.

Rhaid canmol hefyd yr ieuenctid sy'n troi allan yn gyson ar y nosweithiau Mawrth. Ychydig flynyddoedd yn ôl, dim ond cwta hanner dwsin oedd yn cystadlu yn yr holl oedranau dan 16 oed. Bellach, mae tua hanner cant yn mwynhau'r rasio, y cyfeillgarwch a'r cymdeithasu; a diolch i'r rhieni sy'n fodlon cefnogi a chynorthwyo - a hynny'n aml mewn tywydd hynod aeafol a chysidro mai gwanwyn yw hi i fod!

Rhedeg Ffordd.

Llongyfarchiadau i Arwel Lewis (Bethel) ar ddod yn gyntaf dros 50 oed yn Hanner Marathon Môn ac yn Ras 10k Rhostryfan. Bu Dyfed a Rhian Thomas (Llanrug) yn cystadlu ym Marathon Manceinion, a hynny mewn tywydd echrydus, gydag ambiwlansus yn methu symud yn y môr o fwd ar ddiwedd y ras. Daeth Dyfed yn 231 allan o bron i bum mil o redwyr, mewn amser o 3 awr 14 munud, a gorffennodd Rhian mewn 4 awr a hanner.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Chwaraeon



Pump o hogiau ardal yr ECO oedd yn aelodau o dîm rygbi buddugol Gogledd Orllewin Cymru o dan 15 a enillodd Dllws Gyrfaoedd yr RAF ar y 21ain o Ebrill yng nghae tîm Rygbi Abertawe (St Helens). Yn y gêm derfynol bu iddynt ennill yn erbyn tîm Ysgolion Aberafan, ac yn ystod y rowndiau blaenorol roeddynt yn fuddugol yn erbyn ysgolion Abertawe, ysgolion Blaenau Gwent ac ysgolion Merthyr. Enwau'r hogiau o'r dde i'r chwith ydi: Dafydd Lloyd Williams (Waunfawr/Ysgol Brynrefail); Ifan Roberts (Bethel/Ysgol Brynrefail); Mathew Lee Jones (Llanrug/Ysgol Brynrefail); Liam Hughes (Cwm y Glo/Ysgol Brynrefail) a Llyr Jones (Caeathro/Ysgol Syr Huw Owen).
gareth.wms@lineone.net

CAP ARALL

Rwy'n siŵr i chwi sylwi ar enw Chloe Hughes yn yr adroddiad am daith genod Bethel i Sbaen. Wel, dyma un i gadw llygaid arni. 13 oed ydy Chloe â'r ddawn werthfawr ganddi o sgorio goliau. Fe ddenodd ei pherfformiadau diweddar sylw y dewiswyr cenedlaethol. Bu draw yn yr Iwerddon yn cynrychioli Cymru mewn twrnament rhyngwladol i dimau dan 16. Sgoriodd ddwy gôl i Gymru. Ond nid dyna'r cyfan. Er ei hoedran mae wedi ei chynnwys yng ngharfan ymarfer tîm dan 17 Cymru. Yn amlwg, mae deunydd chwarae-wraig o safon yma. Dymuniadau gorau iddi. Clywais yn ddiweddar am fachgen 6 oed o ardal sy'n ffinio â Bro'r Eco eisoes ar 'lyfrau' Everton. Melys, Moyes mwy!

TARIAN'R BEGANIFS

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Waunfawr ar gipio pencampwriaeth Cyngghair Caernarfon a'r cylch. Dyna'r cylch yn gyfan gyda phob tîm ym Mro'r Eco - Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel - wedi cipio'r Bencampwriaeth yma. Edrychwn ymlaen at y gemau darbi ym Montnewydd a Bethel y tymor nesaf yng Nghynghair Gwynedd. Yn yr un modd yr hen elynion Llanrug a Llanberis ym mhrif adran yr Alliance.

TLWS YRECO 2012

Fel arfer mae'r trefniadau mewn llaw erbyn hyn, ond gyda'r Gemau Olympaidd, Ewro 2012, taith rygbi Cymru i Awstralia, Bangor yng Nghwpan Ewropa ayyb, ni ellir cadarnhau y dyddiadau terfynol. Fe fyddaf yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r timau. Yr un peth pendant yw bod y gystadleuaeth dan 11 ar Eithin Duon. Unrhyw glwb/bentref felly sydd eisiau rhoi gwahoddiad i'r oedran dan 9 gadewch i mi wybod c.g.a.ph. Y cyntaf i'r felin...

Cefnogwch ein hysbysebwy



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

SBLASH GO IAWN!

Cyn dyfodiad y Canolfannau/Pyllau Hamdden, yr afon/llyn lleol fyddai pwll nofio cyhoeddus yr ardal. Yna daeth y pyllau nofio moethus, y gwersi ysgol yno, yr hyfforddi, y clybiau a'r galas. Syndod felly oedd darllen yn ddiweddar adroddiad yn nodi fod llai o blant Cymru erbyn hyn â'r gallu i fod yn gyfforddus yn nofio. Yn amlwg roedd y cyfleusterau 'cynhenid' wedi rhoi sylfaen hyderus i un garfan lleol o nofwyr. Ymysg y chwe nofiwr oedd yn cynrychioli tîm nofio Meistri Arfon ym Mhencampwriaeth Prydain yn Sheffield roedd pedwar o Fro'r Eco. Y pedwar oedd Stel Farrar (Dinorwig), Keith Rothwell (Brynrefail) Oggy East

(Deiniolen) a Pete Edwards (Llanberis). Stel a Keith - y ddau dros eu hanner cant - oedd y sêr. Daeth Stel yn bencampwr Prydain yn y 400m Individual Medley, ac yn ail yn y 1500m dull rhydd. Tipyn o gamp. Ac yntau dros ei 60 cipiodd Keith 4 medal arian a 4 medal efydd, a hynny yn nulliau y pili-pala, y frest, y cefn a'r ras dulliau cymysg. Meistr ei gamp os bu un erioed. Cyfrannodd yr aelodau eraill hefyd gan olygu fod y tîm o'r gorllewin yn gorffen yn safle 21 allan o'r 48 tîm a fu'n cystadlu. Mae'n amlwg fod tipyn o ysbryd yn y clwb yma, ac os ydych dros 18 oed a diddordeb mewn ymuno gellir cael mwy o wybodaeth ar www.arfonmasters.org.uk.



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk

GWASANAETH GARDDIO
OWEN
GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Ole! Ole! Ole! O Bethal

Does dim amheuaeth bod pêl-droed i ferched wedi magu cryn wreiddiau yn lleol. Fel y mae'r rhifyn yma yn adlewyrchu, daeth cryn lwyddiant ar lefel rhanbarthol. Yn ddiweddar torrwyd tir newydd pan aeth tîm dan 16 Bethel ar daith dramor i heulwen Sbaen. Tipyn o fenter a thipyn o brofiad. Dyma atgofion y rheolwr Iorweth Williams am y daith sy'n sicr yn ymestyn ffiniau.

'Ar ddiwedd Ebrill teithiodd y garfan o 14 merch, yn ogystal â rhieni a chefnogwyr, draw i Sbaen am benwythnos hir. Hedfan o Lerpwl i Reus ac ymgartrefu yng Ngwesty'r Calypso yn Salou. Gan nad oedd y gêm gyntaf tan nos Sadwrn, manteisiwyd ar y cyfle i ymweld â stadiwm anhygoel y Camp Nou ym Marcelona.

Y gwrthwynebwyr cyntaf oedd CF Icomar un o dimau gorau cynghrair merched Catalonia. Tipyn o gêm i ddechrau'r daith. Gêm gyflym a chriw Bethel ar ei hôl hi o 2-0 wedi ugain munud. Yna tro ar fyd, a



dwy gôl gampus Chloe Hughes yn unioni'r sgôr ar yr egwyl. Felly yr arhosodd hi trwy'r ail hanner, er y daeth sawl cyfle i'r ddau dîm. Y farn gyffredinol oedd bod gêm gyfartal yn ganlyniad digon teg.

Bore Sul dan awyr las a haul cynnes, wynebu La Floresta. Bydd y genethod yn cofio'r perfformiad yma am hir. Ar ôl chwarter awr dwy gôl Chloe yn

rhoi hyder i'r teithwyr. Ffion Roberts yn rhwydo trydedd gôl, cyn i'r tîm cartref ymateb. Yna Chloe yn cyflawni ei hat-tric yn adlewyrchu hyder ei chwarae ar hyn o bryd. Gôl olaf y daith oedd un o'r goreuon, chwip o ergyd o 30 llath gan y capten Charley Smith.

Digon i'w ddathlu felly, a chyfnod i siopa a thorheulo ddydd Llun cyn dychwelyd

adref â llond rhwyd o atgofion. Edrychwn ymlaen i ymweld â'r Iseldiroedd y flwyddyn nesaf.

Hoffai Iorwerth a'r garfan ddiolch o galon i noddwyr y daith, gan gynnwys Cled a Swsan, Post Bethel; Huw Price Hughes; Alun Fred Jones AM' DU Construction; Andrew Roberts Plumbing, ac yn enwedig y prif noddwyr Gelli Gyffwrdd.

Llongyfarchiadau Genod Llanrug



Llongyfarchiadau i genod dan 10 a dan 14 oed Llewod Llanrug. Roedd y ddau dîm yn cystadlu yn gemau terfynol Cystadleuaeth Cwpan Carfan Gogledd Cymru yn Kinnel Bay dydd Sadwrn Mai 12. Enillodd y genod dan 10 yn erbyn Northop Hall o 2-0, y goliau gan Cara Jones a Cara Robinson.



A'r sgôr buddugol yn erbyn Bethel gan genod dan 14 oedd 2-1, Sioned Phillips yn sgorio un, a'r ail gôl gan Lois Regan. Da iawn i'r ddau dîm a diolch i'w hyfforddwyr am eu gwaith caled trwy'r tymor.

GALW AR GYN-CHWARAEWYR A SWYDDOGION CLWB PELDROED LLANBERIS.

Mae Clwb Peldroed Llanberis yn dathlu agoriad swyddogol yr adeilad newydd ar ddydd Sadwrn, 23ain o Fehefin. Mae gwahoddiad i unrhyw berson sydd wedi chwarae i'r clwb yn y gorffennol, ac hefyd i swyddogion sydd wedi bod ynghlwm a'r clwb dros y blynnyddoedd. Bydd yr adeilad yn cael agoriad swyddogol am un o'r gloch y pŵn, gan ddilyn gyda

gwahoddiad i'r cyhoedd gael ei weld. I ddathlu'r agoriad, bydd gem ryngwladol yn cael ei chwarae ar Gae Ffordd Padarn - Llanberis yn erbyn Sporting Velletri o'r Eidal, gan gychwyn am dri o'r gloch. Am ragor o fanylion cysylltwch a'r Cadeirydd, Eurwyn Thomas ar 01286 872274.